



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Amaethyddiaeth yng Nghymru

2019

Cynnwys

Pennod 1: Cyfraniad amaethyddiaeth yng Nghymru

Cyflwyniad	2
1.1 Allbwn amaethyddiaeth a'i gyfraniad at economi Cymru	2
1.1.2 Treuliant canolraddol	3
1.1.3 Allbwn	3
1.1.4 Cyfanswm Incwm Ffermio	5
1.2 Cynhyrchiant amaethyddol	6
1.3 Cyfraniad ehangach amaethyddiaeth yng Nghymru: twristiaeth a bwyd a diod	7
1.3.1 Twristiaeth yng Nghymru	7
1.3.2 Y sector bwyd a diod	7
1.4 Amaethyddiaeth a chyflogaeth	8
1.5 Lluosyddion economaidd	9
1.6 Amaethyddiaeth, cymunedau gwledig a'r Gymraeg	10

Pennod 2: Tir Cymru

Cyflwyniad	13
2.1 Tir amaethyddol yng Nghymru	13
2.2 Amaethyddiaeth fel darparwr gwasanaethau ecosystemau	14
2.3 Yr amgylchedd naturiol	16
2.3.1 Fflora a Ffawna	16
2.3.2 Ansawdd aer	17
2.3.3 Dŵr croyw	17
2.3.4 Pridd	19
2.3.5 Ecosystemau'r tir: Mynydd, rhos a gwaun	19
2.3.6 Ecosystemau'r tir: Glaswelltir lled-naturiol	19
2.3.7 Ecosystemau'r tir: Ffermdir wedi'i amgáu	19
2.4 Prif ymrwymadau amgylcheddol Llywodraeth Cymru	20
2.4.1 Carbon	20
2.4.2 Ansawdd yr aer	20
2.4.3 Dŵr	21
2.4.4 Pridd	21
2.4.5 Bioamrywiaeth	21

Pennod 3: Busnesau fferm yng Nghymru

Cyflwyniad	22
3.1 Mathau o ffermydd yng Nghymru	22
3.2 Ffermdir yng Nghymru	23
3.2.1 Proffil y tir ar ffermydd	23
3.2.2 Maint y fferm	28
3.2.3 Tir ar rent	28
3.2.4 Tir comin yng Nghymru	29
3.3 Incwm busnes y fferm yng nghyd-destun incwm aelwyd y fferm	30
3.3.1 Incwm Busnes y Fferm	31
3.4 Incwm busnesau fferm yn ôl ffynhonnell	32
3.4.1 Elfennau o incwm fferm	32
Incwm sy'n deillio o amaethyddiaeth	33
Incwm sy'n deillio o arallgyfeirio	34
Incwm sy'n deillio o gynlluniau amaeth-amgylcheddol	35
Incwm o Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)/y Taliad Sengl	36
3.5 Proffil Costau	36
3.6 Allbwn amaethyddol ac elw yn ôl maint economaidd y fferm	38
3.7 Perfformiad fferm	39
3.8 Asedau, rhwymedigaethau a gwerth net	41

Pennod 4: Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru

Cyflwyniad	42
4.1 Cefndir	42
4.2 Cyfanswm yr hawlwyr a maint cyllideb BPS	42
4.3 Dosbarthu BPS	44
4.4 Dosbarthiad BPS a thir ar fferm	45
4.5 Dosbarthiad BPS yn ôl allbwn safonol	46
4.6 Cyfartaledd BPS yn ôl categori fferm	47
4.7 Taliadau ailddosbarthu	47

4.8 Proffidioldeb a BPS	48
4.8.1 Cyfartaledd incwm yn ôl maint fferm a heb BPS	48
4.8.2 Ffermydd sydd wedi gwneud elw heb BPS	49
4.9 BPS, prisiau tir a rhenti	50
4.10 BPS a gwyrddu	52

Pennod 5: Masnach

5.1 Cig Eidion	53
5.2 Ŵyn	54
5.3 Llaeth	56

Cyfeiriadau	58
--------------------	-----------

Amaethyddiaeth yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae'r pecyn tystiolaeth hwn yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â Datganiad Ysgrifenedig Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig sy'n nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar *Brexit a'n Tir*.

Pwrpas y pecyn tystiolaeth hwn yw disgrifio'n wrthrychol sefyllfa a chyflwr y sector amaethyddol yng Nghymru. Mae'r pecyn tystiolaeth yn ddogfen ffynhonnell fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei chynigion ar gyfer diwygio systemau'r taliadau fferm ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n ymdrin â'r dystiolaeth y mae'n ei defnyddio i ddatblygu'i chynigion mewn ffordd dryloyw ac agored ac mae'r cyhoeddiad hwn yn cyfrannu at hynny. Dyma ddechrau'r broses a byddwn yn cynnal dadansoddiad manylach wrth inni ddatblygu'r cynigion polisi. Byddwn yn arbennig yn adeiladu cyfres o fodolau fferm cynrychioladol i amcangyfrif effeithiau ariannol ac economaidd amrywiol ein cynigion ar ffermydd o wahanol fathau ac amrywiol eu lleoliad a'u maint yng Nghymru. Bydd hon yn broses ailadroddus a bydd y gwaith yn cyfrannu'n arbennig at ystod ehangach o asesiadau effaith fydd yn cael eu cynnal maes o law. Fel rhan o hyn, bydd system Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) bresennol yng Nghymru'n cael ei defnyddio fel llinyn mesur ar gyfer asesu'n cynigion polisi a bydd y dystiolaeth yn y papur hwn yn cyfrannu at hyn.

Mae'r pecyn tystiolaeth hwn yn ymdrin â phum prif faes: cyfraniad y sector amaethyddol yng Nghymru at economi a chymdeithas Cymru; pwysigrwydd ffermio yng nghyd-destun tir ac amgylchedd naturiol Cymru; strwythur a pherfformiad ffermydd Cymru; rôl Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru; a chyfraniad ffermio yng Nghymru at y fasnach yn y prif nwyddau amaethyddol.

Er nad pecyn ymgynghori mohono, mae croeso ichi anfon atom unrhyw sylwadau sydd gennych am y pecyn tystiolaeth hwn. Anfonwch eich safbwyntiau at:

Yr Is-adran Diwygio Rheoli Tir
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

BrexitanTir.BrexitandOurLand@gov.wales

Pennod 1: Cyfraniad amaethyddiaeth yng Nghymru

Cyflwyniad


1. Mae'r bennod hon yn ystyried effaith amaethyddiaeth yng Nghymru. Rydym yn defnyddio data ar lefel Cymru a'r DU i ystyried effaith uniongyrchol amaeth ar economi Cymru, yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng ffermio a thwristiaeth a'r sector bwyd a diod yng Nghymru. Rydyn ni hefyd yn edrych ar gyflogaeth a'r cysylltiad rhwng amaethyddiaeth a'r Gymraeg.

1.1 Allbwn amaethyddiaeth a'i gyfraniad at economi Cymru

2. £457 miliwn oedd Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)¹ Amaethyddiaeth yng Nghymru yn 2017². Dyna 0.8% o gyfanswm GVA Cymru y flwyddyn honno³ a 4% o gyfanswm GVA amaethyddiaeth y DU. Mae amaethyddiaeth yn cynrychioli canran uwch o economi Cymru nag yw o economi'r DU (0.6%).

3. Gwelwyd gostyngiad o 82% yng ngwerth GVA amaethyddiaeth Cymru rhwng 1995 a 2006. Digwyddodd y cwmp hwn yn ystod y gwaharddiad ar allforio cig eidion a gwartheg o'r DU (1996-2005) yn sgil yr argyfwng BSE. Er y cafodd gryn effaith ar y sector eidion ar y pryd, gwelwyd newid pwysig yng ngwerth allbynnau rhai sectorau eraill – gan gynnwys llaeth ac allbynnau da byw eraill. Roedd y gostyngiad yn arbennig o drwm rhwng 2004 a 2005. Cyn 2005, roedd y cymorth uniongyrchol i amaethyddiaeth o dan y Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) yn seiliedig ar gynhyrchiant. Roedd hynny'n golygu bod taliadau uniongyrchol yn cael eu cyfrif fel allbynnau gan felly gyfrannu at y GVA. Yn 2005, cafodd y cymorth uniongyrchol ei ddatgysylltu oddi wrth gynhyrchiant ac felly, nid oedd yn rhan mwyach o GVA amaethyddiaeth.

Ffigur 1.1:
Gwerth
Ychwanegol Gros
amaethyddiaeth
yng Nghymru,
1995 i 2017
(prisiau sylfaenol,
£ miliwn)^(a)



(a) GVA ar Brisiau Sylfaenol = gwerth yr allbwn - treuliant canolraddol + treth net

Ffynhonnell : Llywodraeth Cymru, Defra

¹ Gwerth Ychwanegol Gros yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned sy'n cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau.

² Aggregate agricultural output and income, 2017.

³ Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys prosesu eilaidd ar gynnyrch amaethyddol o Gymru yng Nghymru. Pe baent yn ei gynnwys, byddai cyfraniad amaethyddiaeth Cymru at y GVA yn fwy.

4. Ers 2006, mae'r GVA amaethyddiaeth wedi cynyddu. Yr un oedd y duedd yn y DU gyfan.

1.1.2 Treuliant canolraddol

5. 'Treuliant canolraddol' yw'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio i redeg busnes. Mae'n ddangosydd o brif gostau busnes ac o'r diwydiannau y mae busnes yn eu cefnogi trwy ei wariant.

6. Mae amaethyddiaeth yn cefnogi Cymru trwy ddefnyddio deunydd a nwyddau sydd eu hangen i redeg busnes fferm. Yn 2017, £1,138 miliwn oedd treuliant canolraddol amaethyddiaeth.

7. Er bod cyfraniad amaethyddiaeth at y GVA yn gymharol fach, mae cyfraniad y diwydiant at yr economi'n fawr oherwydd ei wariant. Edrychwn nes ymlaen at y dystiolaeth ynghylch lluosyddion economaidd y sector amaethyddol yng Nghymru.

8. Dengys Ffigur 1.2 elfennau treuliant canolraddol amaethyddiaeth yn 2017. Maen nhw'n dangos y prif gostau a'r diwydiannau y mae amaethyddiaeth yn eu cynnal.


9. Gwelwyd 9% o gynnydd yn nhreuliant canolraddol amaethyddiaeth Cymru yn 2017. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r cynnydd o 13% yn y treuliant canolraddol ar borthiant da byw.

10. I fusnes fferm, mae hyn yn gynnydd yng nghostau rhedeg busnes.

1.1.3 Allbwn

11. Rhagwelwyd mai £1,594 miliwn⁴ fyddai cyfanswm allbwn amaethyddiaeth Cymru yn 2017. Mae Tabl 1.1 yn dangos cyfraniad pob math o allbwn ac yn dangos pwysigrwydd da byw a chynnyrch da byw yng Nghymru. O'r da byw hynny, gwartheg sydd â'r allbwn mwyaf a llaeth sydd â'r allbwn cynnyrch da byw mwyaf.

Ffigur 1.2:
Elfennau treuliant
canolraddol
amaethyddiaeth
yng Nghymru,
rhagolwg 2017
(£ miliwn)



Ffynhonnell: Agricultural Output and Income, 2017

⁴ Gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir gan fusnes.

Tabl 1.1: Allbwn amaethyddiaeth 2013 – 2017

£miliwn	Blyn'oedd calendr				
	2013	2014	2015	2016 Dros dro	2017 Rhagolwg
Allbynnau					
1. Ydau	19	18	21	21	22
2. Cnydau eraill	8	8	7	8	8
3. Tatws	11	10	13	17	16
4. Garddwriaeth	37	41	42	51	51
5. Da byw – <i>o'r rheini</i>	690	709	686	696	722
Gwartheg	373	363	370	376	407
Defaid	240	272	257	267	264
Moch	6	7	5	5	6
Dofednod	71	67	52	47	45
6. Cynnyrch Da Byw – <i>o'r rheini</i>	565	610	499	438	581
Llaeth a chynnyrch llaeth	506	549	440	381	515
Wydau	48	48	43	41	52
Gwlân cnaif	7	7	6	5	3
7. Ffurfiant Cyfalaf mewn Da Byw	82	89	79	63	63
8. Gweithgareddau Amaethyddol Eilaidd Anwahanadwy ac Eraill	125	133	128	127	130
9. Allbwn gros yn ôl prisiau sylfaenol (1+2+3+4+5+6+7+8)	1,537	1,619	1,475	1,420	1,594

Ffynhonnell: Aggregate agricultural output and income, 2017

1.1.4 Cyfanswm Incwm Ffermio

12. Cyfanswm Incwm Ffermio (TIFF) yw elw'r busnes a gwerth y gwaith a wneir gan weithwyr di-dâl (e.e. perchenogion y busnes). Mae'n cynnwys incwm cymorthdaliadau.

13. Mae'r TIFF felly'n dangos cyfanswm yr incwm o allbwn amaethyddiaeth, cymorthdaliadau a gweithgarwch allgyfeirio ffermwyr yn y flwyddyn dan sylw.

14. Rhagwelwyd mai £276 miliwn fyddai cyfanswm incwm ffermio yng Nghymru yn 2017.


15. Mae hynny 56% yn fwy nag yn 2016, ac ar ôl dwy flynedd o TIFF isel, yn mynd â ni yn ôl i lefelau 2014. Fel y dengys Ffigur 1.3, mae pendilio o'r fath yn gyffredin.

16. Fesul hectar, roedd hynny'n cynrychioli incwm o £148 yr hectar. O fewn y DU, roedd hynny'n uwch na'r Alban (£119 yr hectar) ond yn isel o'i gymharu â Lloegr (£426 yr hectar) a Gogledd Iwerddon (£449 yr hectar).

17. Mae'r TIFF yr hectar yn amrywio hefyd. Amcangyfrifwyd mai £90 yr hectar oedd TIFF Cymru yn 2016 a £236 yr hectar oedd TIFF Gogledd Iwerddon.

18. Ers 1995, mae TIFF Cymru wedi cynyddu 3%. Yn yr un cyfnod, mae TIFF y DU wedi cynyddu 24%.

Ffigur 1.3:
Cyfanswm Incwm Ffermio yng Nghymru, yn ôl prisiau cyfredol, 1995 - 2007 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Defra

1.2 Cynhyrchiant amaethyddol

19. Mae cyfanswm cynhyrchiant ffactorol yn mesur y defnydd o fewnbynnau mewn perthynas â'r allbynnau gan roi syniad pa mor dda y mae'r diwydiant yn defnyddio'i adnoddau.

20. Mae cynyddu cynhyrchiant yn helpu busnes fferm i wneud mwy o elw.

21. Dim ond ar lefel y DU y ceir ffigurau cyfanswm cynhyrchiant ffactorol, ond mae'r duedd tymor hir yn dangos cynnydd araf ond cyson. Ers 1973, mae'r cyfanswm cynhyrchiant ffactorol wedi cynyddu mwy na 70% yn sgil cynnydd o 37% yn swm yr allbynnau a chwymp o 20% yn swm y mewnbynnau.

22. O'r mewnbynnau⁵, cynhyrchiant llafur sydd wedi gweld y gwelliant gorau ers 1973. Y rheswm am hynny yw'r gostyngiad hanesyddol yn nifer y bobl a gyflogir mewn amaethyddiaeth, ac yn y blynyddoedd diwethaf, roedd yn gysylltiedig â chynnydd yn allbwn llafur. Yng nghynhyrchiant y tir y gwelwyd yr ail welliant mwyaf yn y cyfnod.


23. Yn y cyfnod 2006-2016, o 28 gwlad yr UE, y DU welodd y newid cyfartalog blynyddol 5ed lleiaf (0.2%) yn y cyfanswm cynhyrchiant ffactorol mewn amaethyddiaeth. Mae hyn yn cymharu â 0.5% yn Iwerddon a Ffrainc, 0.8% yn Sweden a 0.6% yn yr Almaen.

24. Rhwng 2016 a 2017, gwelwyd 2.8% o gynnydd yn y cyfanswm cynhyrchiant ffactorol yn amaethyddiaeth y DU. Y cynnydd o 3.6% yn yr allbynnau oedd yn gyfrifol am hynny, gydag ond ychydig o gynnydd yn y mewnbynnau (0.7%) i wrthweithio hynny.

25. Gwelwyd 3.1% o gynnydd yn swm y porthiant da byw fel mewnbyn rhwng 2016 a 2017. Dyna'r cynnydd mwyaf o'r holl fewnbynnau. Ar gyfer busnes fferm, mae hynny'n dangos cynnydd yn y defnydd o borthiant a/neu gynnydd yn y costau.

26. Y mewnbyn a welodd y gostyngiad mwyaf oedd gwrtait. Gwelwyd 9.7% o ostyngiad yn swm y mewnbyn hwn rhwng 2016 a 2017.

Ffigur 1.4:
Cyfanswm
Cynhyrchiant
Ffactorol y DU,
1973-2017
(1973=100)



Ffynhonnell: Defra

⁵ Prif fewnbynnau: Treuliant Canolraddol, y Cyfalaf a Ddefnyddir, Llafur, Tir. Ffynhonnell; Cyfanswm cynhyrchiant ffactorol diwydiant amaeth y DU, ail amcangyfrif ar gyfer 2017, Defra.

27. Nid yw cyfanswm cynhyrchiant ffactorol amaethyddiaeth y DU yn cael ei fesur ar lefel rhanbarth na gwlad. Un ffordd o gymharu'r gwledydd a'r rhanbarthau gwahanol yw trwy gymharu gwerth yr allbwn gros a gynhyrchir fesul hectar.

Bydd gwahaniaethau'n adlewyrchu daearyddiaeth yr ardaloedd, mathau gwahanol o ffermio a gwahaniaethau yn y cymarebau rhwng allbynnau da byw, tir â'r a garddwriaeth mewn ardaloedd gwahanol.

Tabl 1.2: Allbwn gros^(a) yn ôl prisiau sylfaenol yr hectar o dir amaethyddol (£/ha), 2017

Cymru	G-ddn Lloegr	G-On Lloegr	Swydd Efrog a Humbs	Dwyrain Canolbarth Lloegr	Gorllewin Canolbarth Lloegr	Dwyrain Lloegr	De-ddwyrain Lloegr	De-Orllewin Lloegr	Yr Alban	Gog Iwerddon
858	1,341	2,225	1,478	1,858	2,333	3,190	2,393	1,836	514	2,063

(a) Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru o ffynonellau swyddogol

28. Mae'r ffigurau'n dangos bod gwerth allbwn gros fesul hectar o dir amaethyddol yng Nghymru yn is nag yn rhanbarthau Lloegr, ac yn is na Gogledd Iwerddon ond mae'n uwch na'r Alban.

1.3 Cyfraniad ehangach amaethyddiaeth yng Nghymru: twristiaeth a bwyd a diod

1.3.1 Twristiaeth yng Nghymru

29. Dywedir yn aml bod cyfraniad ffermwyr at olwg tirlun Cymru yn un o'r ffyrdd pwysig ac anuniongyrchol y mae amaethyddiaeth yn cyfrannu at economi Cymru, nad yw'r GVA yn ei gydnabod.

30. Mae ansawdd cefn gwlad a thirwedd Cymru'n cael ei nodi gan ymwelwyr fel un o'u prif gymhellion dros ymweld â Chymru – dywedodd dros hanner yr ymwelwyr undydd o'r DU (54%) a thua dau draean (67%) o'r ymwelwyr dros nos fod y dirwedd yn un o'u rhesymau dros ymweld â Chymru yn 2016.

31. Mae Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016 yn datgelu bod ymwelwyr undydd o'r DU, ymwelwyr dros nos o'r DU ac ymwelwyr tramor yn fodlon iawn â'u trip i Gymru. Ansawdd yr amgylchedd naturiol dderbyniodd y sgôr uchaf o'r holl nodweddion penodol a werthuswyd (9.0/10) gan y tri grŵp.

32. O'r ymwelwyr dros nos â Chymru a ddaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, dywedodd 75% ohonynt mai cerdded oedd eu prif weithgaredd.

33. Esgorodd cerdded a cherdded y brynau amcangyfrif o £562 miliwn o alw ychwanegol yn economi Cymru a £275 miliwn o GVA yn 2009. Amcangyfrifwyd bod hynny gyfwerth â rhyw 16% o gyfanswm GVA twristiaeth y flwyddyn honno.

34. Mae Llwybr Arfordir Cymru ar ei ben ei hun yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at economi Cymru o £84 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir ei fod yn cynnal rhagor na 1,000 o swyddi.

35. Fel cyfanswm, mae twristiaeth yn cyfrannu £2,844 miliwn at GVA Cymru ac yn cynnal rhyw 122,900 o swyddi.

1.3.2 Y sector bwyd a diod

36. Cyn gynted ag y mae cynnyrch yn mynd heibio gât y fferm, mae'n rhan o farchnad fwyd ehangach y DU. Mae cynnyrch cynradd o Gymru'n cael ei ddefnyddio mewn cynnyrch eilaidd sy'n cael ei brosesu y tu allan i Gymru ac yn yr un modd, mae cynnyrch o'r tu allan i Gymru'n cael ei brosesu yng Nghymru.

37. Fodd bynnag, mae perthynas bwysig rhwng allbwn ffermydd o Gymru a sector gweithgynhyrchu bwyd a diod Cymru. Mae Pennod 5 yn edrych yn fanylach ar y fasnach yn y prif nwyddau amaethyddol (biff, defaid a godro). Rydyn ni wedi crynhoi yn y fan hon gyfraniad y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod at economi Cymru.

38. Mae sector gweithgynhyrchu bwyd a diod Cymru'n cyflogi 23,000 o bobl, gyda throsiant o £4.8bn (2018) (sef rhyw 4% o drosiant economi busnesau anariannol Cymru) gan gyfrannu £1.5bn (2016) at GVA Cymru.

39. O fewn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod, yr is-sector mwyaf o ran adwerthiant yn 2017 oedd diodydd (£1.17biliwn), yna cig a chynnyrch cig (£1.13biliwn), ffrwythau, llysiau a phlanhigion (£892 miliwn) a llaeth a wyau (£668 miliwn). Yn 2018, £539m oedd gwerth allforion bwyd a diod Cymru yng Nghymru. Y ddau is-sector allforio mwyaf yn 2018 oedd cig a chynnyrch cig (£142 miliwn) a llaeth a wyau (£110 miliwn). Mae 73% o'r holl fwyd a diod sy'n cael eu hallforio o Gymru yn mynd i'r UE.

1.4 Amaethyddiaeth a chyflogaeth


40. Ym mis Medi 2018, 3.2% o weithlu Cymru oedd yn gweithio mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota. Roedd hyn yn uwch na chyfartaledd y DU o 1.1%.

41. Iechyd pobl a gweithgareddau iechyd cymdeithasol yw'r diwydiant mwyaf yng Nghymru o ran nifer y swyddi, yn cynrychioli 14.0% o'r swyddi yn yr un cyfnod. Nesaf y mae'r diwydiant cyfanwerthu ac adwerthu, sy'n cyfrif am 13.9% o'r swyddi.

42. Ceir gwahaniaethau rhanbarthol yng Nghymru o ran nifer y swyddi mewn amaethyddiaeth. Yn 2017, Ceredigion oedd â'r gyfran uchaf o swyddi mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (12.4% o'r swyddi) ac yna Powys (12.2%). Y diwydiannau bras mwyaf yn y ddau ranbarth oedd gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd, yn cyfrif am 23.1% o'r swyddi ym Mhowys a 32.9% o'r swyddi yng Ngheredigion.

43. Yn ardaloedd trefol fel Casnewydd, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, roedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota'n cyfrif am lai na 1% o'r swyddi. Ceir dadansoddiad pellach o wasgariad swyddi amaethyddol yn ôl maint trefi a dinasoedd Cymru yn 'Sector diwydiannol gweithwyr yn ôl maint yr ardal drefol (2011)'.⁶

Ffigur 1.5:
Swyddi gweithle mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, 2017 (%)



Ffynhonnell: StatsCymru/ONS

⁶ www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150520-industrial-sector-workers-size-built-up-area-2011-en.pdf

44. Mae Tabl 1.3 yn dangos y bobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol⁷ yng Nghymru a bod 75% o'r bobl oedd yn gweithio mewn amaethyddiaeth yn 2016 yn ffermwyr, yn gyfarwyddwyr ac yn

bartneriaid/priod ffermwyr. O'r rheini, nid oedd gan 53% waith amser llawn ar y daliad sy'n awgrymu bod gan lawer o ffermydd yng Nghymru ffynonellau incwm ychwanegol.

Tabl 1.3: Pobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol, Cymru(a)

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyfanswm ffermwyr, partneriaid, cyfarwyddwyr a'u priod						
Amser llawn	19,945	19,869	17,873	19,507	19,307	18,564
Rhan-amser (b)	25,001	25,179	22,078	23,142	22,312	21,339
Cyfanswm	44,946	45,048	39,951	42,649	41,619	39,903
Gweithwyr fferm:						
Amser llawn rheolaidd (c)	3,306	3,146	3,278	4,406	4,638	
Rhan-amser rheolaidd (b) (c)	3,100	3,422	3,337	4,682	4,492	
Gweithwyr tymhorol ac achlysurol	7,063	6,758	6,398	7,884	7,570	
Cyfanswm gweithwyr fferm	13,469	13,326	13,013	16,972	16,700	13,621
Cyfanswm y llafurlu:	58,415	58,374	52,964	59,621	58,319	53,524

(a) Ffigurau ar gyfer y prif ddaliad a'r mân ddaliadau.

(b) Rhan-amser yw 39 awr yr wythnos neu lai.

(c) Gan gynnwys rheolwyr â chyflog.

Ffynhonnell: Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016

45. Oed canolrif ffermwyr yng Nghymru yn 2016 oedd 61 oed. Ystyr ffermwr yn y cyd-destun hwn yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau. Nid yw'r ffigur o reidrwydd yn adlewyrchu oed pob partner yn y busnes. Er enghraifft, os yw mab neu ferch y ffermwr yn bartner ym musnes y fferm, oed y rhiant fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrif y canolrif oed.

46. Mae'r oed canolrif yn amrywio yn ôl maint economaidd y fferm. Ar gyfer ffermydd bach iawn (o dan 8 Uned Maint Ewropeaidd⁸), yr oed canolrif yw 64 oed. Ar gyfer y ffermydd mwyaf (tros 100 o Unedau Maint Ewropeaidd), yr oed canolrif yw 55 oed.

47. Mae'r rhan fwyaf o brif ffermwyr yng Nghymru dros 55 oed (68%). Dim ond 3% sydd o dan 35 oed.

1.5 Lluosyddion economaidd

48. Gellir defnyddio lluosyddion economaidd i amcangyfrif effaith newidiadau i sector penodol (fel y sector amaethyddol) ar yr economi neu i amcangyfrif effaith newidiadau mwy cyffredinol allai effeithio ar nifer o sectorau gwahanol yr un pryd.

49. Mae'n rhesymol ystyried lluosyddion fel amcangyfrif o'r effeithiau economaidd tymor byr. Hynny oherwydd dros y tymor hwy, mae'n debygol y caiff unrhyw effeithiau cychwynnol eu lleddfu gan newidiadau o fewn yr economi.

⁷ Mae'r set ddata hon yn wahanol i'r hyn sydd yn Ffigur 1.5 gan ei bod yn cyfrif nifer y bobl sy'n gweithio, yn hytrach na nifer y swyddi. Efallai bod gan rai pobl fwy nag un swydd.

⁸ Mesur o allbwn yw'r Uned Maint Economaidd (ESU), yn seiliedig ar faint daearyddol y fferm a gweithgarwch y fferm. Mwy'n y byd yw allbwn y fferm, mwy'n y byd yw ei ESU.

50. Gall y lluosyddion fod yn Deip I neu Deip II. Mae'r cyntaf yn ystyried yr effaith uniongyrchol⁹ a'r effaith anuniongyrchol¹⁰, ac mae Teip II yn ceisio mesur hefyd yr effaith a gymhellwyd¹¹.

51. Un ffordd o amcangyfrif lluosyddion economaidd yw trwy ddefnyddio tablau mewnbwn-allbwn¹². Tablau mewnbwn-allbwn 2017 yw'r rhai mwyaf diweddar ar gyfer Cymru¹³ – mae'r amcangyfrifon ar gyfer y lluosyddion yn y tablau hyn yn ymwneud â'r diwydiant amaeth, coedwigaeth a physgodfeydd gyda'i gilydd. Dangosir y rhain yn Nhabl 1.4.

Tabl 1.4: Lluosyddion Allbwn a Chyflogaeth (Teip I a Theip II), Cymru (2007)

	Allbwn		Cyflogaeth	
	Teip I*	Teip II**	Teip I	Teip II
Amaeth, coedwigaeth a physgota	1.44	1.54	1.17	1.21
Lleiafswm (pob diwydiant)	1.20	1.27	1.11	1.20
Uchafswm (pob diwydiant)	2.07	2.14	2.32	2.92

* Mae lluosydd Teip I yn cynrychioli'r gymhareb rhwng yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol a'r effeithiau uniongyrchol.

** Mae lluosydd Teip II yn cynrychioli'r gymhareb rhwng yr effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol a'r rheini a gymhellwyd a'r effeithiau uniongyrchol.

Fynhonnell: Uned Ymchwil Economi Cymru, Prifysgol Caerdydd

52. Mae'r amcangyfrifon hyn ar lefel Cymru'n awgrymu bod lluosyddion allbwn Teip I ar y cyfan o'r un maint ar draws y rhan fwyaf o ddiwydiannau, gan amrywio o 1.20 i 1.44¹⁴.

53. Mae'r lluosyddion cyflogaeth Teip I cyfatebol yn amrywio rhwng 1.11 ac 1.17¹⁵. Fodd bynnag, rhaid wrth beth gofal wrth ddehongli lluosyddion cyflogaeth o'r fath gan eu bod yn adlewyrchu'r graddau y defnyddir llafur o fewn sector penodol, ynghyd â'r duedd i brynu'n lleol.

54. Mae'n bwysig cydnabod y bydd maint y lluosyddion yn amrywio yn ôl ardal oherwydd ffactorau fel faint o arian fydd yn gadael y system. Yn gyffredinol, gellid disgwyl cyfraddau mwy (gyda lluosyddion is o'r herwydd) mewn ardaloedd llai, er na ddylid cadarnhau hynny heb dystiolaeth empirig gadarn sy'n berthnasol i'r pwnc penodol dan sylw.

1.6 Amaethyddiaeth, cymunedau gwledig a'r Gymraeg

55. Mewn ardaloedd gwledig y ceir llawer o'r cymunedau sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 19% o boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg. Yng Ngwynedd, roedd hynny'n codi i 65%.

⁹ Y newid yn allbwn y diwydiant yn sgil y newid cychwynnol yn y galw terfynol.

¹⁰ Yr effaith ar allbwn y diwydiannau sy'n cyflenwi'r diwydiant yn sgil y newid cychwynnol yn y galw terfynol.

¹¹ Yr effaith yn sgil y newid yng ngwariant cwsmeriaid oherwydd effeithiau ar incwm aelwydydd yn dilyn newidiadau mewn cyflogaeth o ganlyniad i effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.


¹² Mae lluosyddion mewnbwn-allbwn yn rhagdybio ffigurau cyson yn ôl graddfa (cyfernodau technegol sefydlog). Felly bydd newid yn yr allbwn yn arwain at newid cymesur sefydlog yn y mewnbynnau gan ragdybio hefyd bod capasiti dros ben ar gael ar gyfer y cynnydd yn y mewnbwn deunydd a llafur yn unol â'r prisiau a'r cyflogau presennol.

¹³ Gan fod y tabl mewnbwn-allbwn yn ymwneud â Chymru, nid yw'n adlewyrchu'n llawn yr effeithiau rhynggranbarthol â gweddill y DU.

¹⁴ Ac eithrio'r diwydiant trydan, nwy a dŵr.

¹⁵ Heb gynnwys yr amcangyfrifon uchaf a awgrymir ar gyfer y sector bwyd, diod a thybaco, a'r sector prosesu olew, cemegolion a chynhyrchion fferyllol.

Ffigur 1.6:
Sgiliau'r
Gymraeg yn ôl
awdurdod lleol
yng Nghymru,
2011 (Canran
sy'n gallu
siarad
Cymraeg %)



Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2011

56. Trwy gymharu ffigurau 1.5 ac 1.6, gwelir bod 4 o'r 6 sir uchaf o ran y gyfran sy'n siarad Cymraeg hefyd yn 4 o'r 6 sir uchaf o ran y gyfran sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (y 4 sir hynny yw Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin)¹⁶.

57. Mae Tabl 1.5 yn dangos cyfran y gweithwyr fesul sector cyflogaeth sy'n siarad Cymraeg o'i chymharu â nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sector honno. Roedd 227,800 o weithwyr Cymru'n gallu siarad Cymraeg yn 2011. Dyna 17% o'r holl weithwyr.

58. Amcangyfrifir bod 10,600 o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota. Sef 43% o gyfanswm gweithwyr y sector, y gyfran uchaf o'r holl sectorau.

59. Amcangyfrifir bod 37,000 o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y sector addysg; dyma'r sector sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr. Mae hynny'n cynrychioli 27% o weithwyr y sector, y ganran uchaf ar ôl amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota.

¹⁶ Er yn y pedair sir, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn fwy na'r gyfran a gyflogir mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota.

Tabl 1.5: Gweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl sector, Cymru, 2011

	Gweithwyr (000)		Cyfran
	sy'n siarad Cymraeg	Pob gweithiwr	sy'n siarad Cymraeg
Addysg	37.0	138.5	27%
Iechyd	32.0	198.2	16%
Manwerthu	30.6	213.9	14%
Gweinyddiaeth gyhoeddus	20.0	108.6	18%
Adeiladu	18.3	111.9	16%
Gweithgynhyrchu	14.4	144.6	10%
Llety a bwyd	13.6	85.5	16%
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota	10.6	25.0	43%
Proffesiynol	9.0	59.0	15%
Trafnidiaeth	7.1	53.6	13%
Gweinyddu a chymorth	6.5	54.7	12%
Celfyddydau a hamdden	6.2	30.7	20%
Gwybodaeth a chyfathrebu	5.0	31.2	16%
Cyllid	5.0	41.8	12%
Pŵer a Dŵr	4.6	26.6	17%
Gwerthu tir	2.6	17.2	15%
Eraill	5.4	31.8	17%
Pob sector	227.8	1,372.7	17%

Mae'r sectorau wedi'u rhoi yn nhrefn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sector.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2011

Pennod 2: Tir Cymru

Cyflwyniad

60. Mae'r bennod hon yn edrych ar dir amaethyddol yng Nghymru ac ar y berthynas rhwng amaethyddiaeth a'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys cyfraniad amaethyddiaeth at ddarparu gwasanaethau ecosystemau.

2.1 Tir amaethyddol yng Nghymru

61. Mae gan Gymru arwynebedd o 2.1 miliwn hectar ac mae 88% (1.86m ha) ohono'n ffermdir a thir comin. Ffermwyr felly yw'r grŵp mwyaf o reolwyr tir sydd gennym. Oherwydd ansawdd pridd, hinsawdd a daearyddiaeth Cymru, mae'r rhan fwyaf o'i thir amaethyddol (81%) o dan borfa, gydag 13% yn dir âr:

62. O ddadansoddi'r ffigurau hyn yn ôl rhanbarth, gwelir mai yn nhair sir y De-orllewin (Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gâr) gyda'i gilydd y ceir tua thraean (bron 360,000 ha) o'r borfa barhaol yng Nghymru. Yn y Gogledd-orllewin y mae bron draean o borfa arw Cymru sydd o dan hawliau unigol ac ym Mhowys y mae bron 40% o'r borfa arw yng Nghymru sydd ar dir comin. Yn y De-orllewin y ceir 35% (86,000ha) o dir âr Cymru.

Tabl 2.1: Tir Amaethyddol yng Nghymru ^(a)

	Âr ^(b)	Porfa barhaol	Porfa arw (hawliau unigol)	Porfa arw (tir comin)	Coetir ar ddaliadau amaethyddol	Arall	Cyfanswm
Hectarau	247,059	1,065,602	260,196	180,305	89,171	15,044	1,857,377
%	13.3	57.4	14.0	9.7	4.8	0.8	100

(a) Mae'r tabl hwn yn cynnwys tir comin – nid yw Tabl 3.3 yn y bennod nesaf yn cynnwys tir comin

(b) Mae tir âr yn cynnwys porfa sydd lai na 5 mlwydd oed

Ffynhonnell: Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016

Tabl 2.2: Gwasgariad Rhanbarthol Tir Amaethyddol yng Nghymru (mil hectar)^(a)

	Âr	Porfa barhaol	Porfa arw (hawliau unigol)	Porfa arw (tir comin)	Pob tir arall ar ddaliadau amaethyddol	Cyfanswm
Y Gogledd-orllewin	28.3	150.0	82.6	21.2	15.7	297.7
Y Gogledd-ddwyrain	42.5	147.6	39.5	21.8	10.8	262.1
Powys	50.4	272.7	69.0	70.4	25.3	487.8
Ceredigion	20.4	102.9	26.2	12.0	9.5	173.4
Sir Benfro	42.3	96.9	8.5	5.8	17.5	162.9
Sir Gaerfyrddin	23.9	159.6	11.0	15.1	13.7	227.0
Y De	39.3	136.0	23.4	34.0	104.2	246.5
CYFANSWM Cymru	247.1	1,065.6	260.2	180.3	154.2	1,857.4

(a) Gweler Ffigur 3.3 ym Mhennod 3 sy'n dangos gwasgariad y prif weithgareddau amaethyddol yn rhanbarthau Cymru.

Source: Welsh Agricultural Statistics 2016

63. O ran ei thirweddau dynodedig, mae gan Gymru dri Pharc Cenedlaethol¹⁷, gydag arwynebedd rhyngddynt o fwy na 413,000ha, a phum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)¹⁸ sy'n cwmpasu dros 100,000 ha. Mae tua 25% o holl dir Cymru wedi'i ddynodi.

64. O ran ei dynodiadau cadwraeth natur statudol, mae gan Gymru 85 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ar dir (i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau (nid adar) o bwys Ewropeaidd) yng Nghymru, sy'n cwmpasu bron 122,000 ha (5.8% o'r holl dir), a 9 Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar dir (ychydig fwy na 77,000ha) i warchod poblogaethau o adar o bwys rhyngwladol¹⁹. Hefyd, mae gan Gymru 1,062 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ychydig fwy na 262,000 ha (12.6% o holl arwynebedd Cymru)²⁰.

2.2 Amaethyddiaeth fel darparwr gwasanaethau ecosystemau

65. A hwythau y grŵp rheolwyr tir mwyaf yng Nghymru, ffermwyr yw prif gyflenwyr gwasanaethau ecosystemau ac maent hefyd yn ddefnyddwyr pwysig. Gwasanaethau ecosystemau yw'r rheini a ddarperir i gymdeithas gan elfennau byw'r blaned. Gwasanaethau fel atal llifogydd, lleihau llygredd, peillio a storio dŵr.

66. Mae Tabl 2.3 yn dangos amcangyfrif o werth blynyddol amrywiaeth o wasanaethau ecosystem a gynhyrchwyd ar ffermdir ar lefel y DU ers 2007. Mae gwerth amaethyddiaeth yn golygu mwy na'r cynnyrch a werthir ar y farchnad draddodiadol. Mae ffermwyr Cymru'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at yr amgylchedd trwy ddarparu'r gwasanaethau ecosystem hyn.

¹⁷ Eryri, Bannau Brycheiniog ac Arfordir Sir Benfro.

¹⁸ Penrhyn Gŵyr, Ynys Môn, Bryniau Clwyd, Pen Llŷn a Dyffryn Gwy.

¹⁹ Yn ogystal, ceir 10 ACA forol/ACA forol arfaethedig, a 12 AGA forol.

²⁰ Mae peth tir â sawl dynodiad arno (er enghraifft, mae pob safle Natura 2000 ar dir SoDdGA yn ogystal).

Tabl 2.3: Gwerth ariannol blynyddol ffermdir y DU fesul gwasanaeth, 2007 i 2015

	£ miliwn								
Math o Wasanaeth	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Gwasanaethau Darparu:									
Cnydau a biomas pori	235.0	1,555.1	0.0	1,300.3	1,079.2	1,160.5	1,763.1	1,330.1	
Codi dŵr	5.3	3.4	2.2	2.9	5.1	6.4	6.7	5.7	3.8
Gwasanaethau Rheoli:									
Lleihau Llygredd ^(a) (mil tunnell)	342.2	313.8	285.4	256.9	228.5	215.4	202.3	189.1	176.0
Gwasanaethau Diwylliannol:									
Amser yn y cynefin			405.2	327.3	275.6	232.4	211.8	312.3	197.8
Ymweliadau addysgol	0.7	0.9	1	1.2	1.5	1.5	2.1	2.3	1.8

(a) Mae'r elfen llygredd aer a gyfrifwyd yn cynnwys deunydd gronynnol mân, sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac oson.

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

67. Mae peillio hefyd yn wasanaeth ecosystem allweddol ond nid ydym wedi nodi ei werth yn y tabl uchod. Mae 85% o gnydau afalau a ffa dringo'r DU, 65% o gnydau gellyg, eirin a chucumerau a 45% o gnydau mefus a mafon y DU yn dibynnu ar bryfed peillio. Amcangyfrifir bod gwasanaethau peillio'n werth o leiaf £603 miliwn (fffigurau 2010) i economi'r DU bob blwyddyn. Mae Tablau 3.1 a 3.3 ym mhennod 3 yn dangos mai dim ond 188 o unedau garddwriaethol sydd yng Nghymru, yn cwmpasu ychydig fwy na 4,300ha, felly mae gwasanaethau peillio'n bwysicach yn Lloegr nac yng Nghymru.

68. Nid yw'r tabl yn nodi dal a storio carbon chwaith. Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer gwerth ariannol y gwasanaethau dal a storio carbon a ddarperir gan dir i gymdeithas. Ond o ran ei gyfraniad at ddal a storio carbon mewn unedau ffisegol, sicrhodd y sector Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF) ostyngiad net o 0.77 MtCO₂e yn allyriadau Cymru yn 2016. Coetir sydd bennaf gyfrifol am y lleihad hwn yn yr allyriadau, hynny trwy dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer.

69. Mae'r sector LULUCF yn tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer a hefyd yr un pryd yn cynhyrchu allyriadau. Yn 2016, y dalfeydd carbon mwyaf oedd coetir (67%), tir âr wedi'i droi'n dir pori (12%) a thir pori (11%). Ffynonellau allyriadau mwyaf y sector oedd tir pori wedi'i droi'n dir âr (30%), tir âr (23%), tir pori wedi'i droi'n aneddiadau (21%) ac aneddiadau (16%). Yn 2016, ym mlwyddyn gyntaf cyfnod cyllideb garbon Llywodraeth Cymru, gwelwyd gostyngiad o 29% yn allyriadau sector LULUCF Cymru, yn bennaf yn sgil newid yn y ddalfa garbon goetir.

2.3 Yr amgylchedd naturiol

70. Rydym wedi crynhoi isod ganfyddiadau'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (CNC, 2016). Rydym yn trafod yn gyntaf gyflwr y fflora a'r ffawna, yr aer, y dŵr croyw a'r priddoedd yng Nghymru, gan mai'r rhain yw'r prif elfennau amgylcheddol sy'n cyfrannu at gydnerthedd ecosystem. Rydym wedyn yn disgrifio cyflwr y tair ecosystem allweddol ar dir: yn gyntaf, mynydd, rhos a gwaun; yn ail, glaswelltir lled-naturiol; ac yn drydydd, ffermdir wedi'i amgáu.

71. Casgliad cyffredinol CNC fodd bynnag yw *bod pob ecosystem yn profi problemau ag un neu fwy o'r elfennau sy'n cyfrannu at ei chydnerthedd. Gallai hynny'n beryglu ei gallu i ddarparu gwasanaethau a buddiannau ecosystem. Ni ellir dweud bod gan yr un ecosystem, ar sail ein hasesiad, yr holl elfennau sydd eu hangen arni i fod yn gydnerth.*

72. Mae'r disgrifiadau a nodir yn y fan hon yn adlewyrchu newid mewn defnydd tir, yn aml ddegawdau yn ôl. Mae cydnerthedd llawer o'r prif ecosystemau hyn wedi dioddef dan ddylanwad ffermio. Dylanwadwyd ar hynny yn ei dro gan y system gymorth a gyflwynwyd yn y DU ar ôl y rhyfel o dan amrywiaeth o bolisiau amaeth.

2.3.1 Fflora a Ffawna

73. Y dylanwad mwyaf ar wasgariad, cyflwr a thuedd rhywogaethau'r tir yng Nghymru yw'r modd y rheolir eu cynefinoedd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng newidiadau yn ansawdd a swm cynefinoedd a newidiadau yn nwyster systemau rheoli. Mae llawer o rywogaethau'n profi problemau penodol yn sgil darnio cynefinoedd ac ewtroffigedd.

74. Ar sail y data monitro a gasglwyd am rywogaethau ar safleoedd Natura 2000, roedd cyflwr cyffredinol y rhan fwyaf o'r rhywogaethau ar safleoedd ACA ac AGA yng Nghymru, yn ôl adroddiad 2013, yn anffafriol (55%), ac eithrio adar, gyda 86% ohonynt mewn cyflwr ffafriol a mamaliaid, gyda 68% ohonynt mewn cyflwr ffafriol.

75. Mae yna 557 o rywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf²¹ yng Nghymru. Rhwng 2002 a 2008, prin eu hanner oedd yn sefydlog neu'n cynyddu. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru yn cofnodi canfyddiadau'r Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur sy'n cynnwys asesiad o statws rhai o'r rhywogaethau Adran 7 interim ac yn eu cymharu â 2008 – rydym wedi crynhoi'r canlyniadau yn nhabl 2.4.

Tabl 2.4: Statws rhywogaethau Adran 7 interim yng Nghymru

	Nifer y rhywogaethau â blaenoriaeth	Nifer wedi'u hasesu	% yn gostwng	% â'u rhagolygon yn gwella	% heb fawr o newid yn eu statws
Infertebrata	104	67	21%	25%	54%
Fertebrata	83	78	37%	21%	42%
Ffyngau a chen	87	55	29%	27%	44%
Bryoffitau	52	49	47%	24%	29%

Ffynhonnell: crynodeb o'r SoNaRR, yn seiliedig ar Sefyllfa Natur Cymru 2016

²¹ Paratowyd y rhestr interim o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

76. Y rhywogaethau â blaenoriaeth yr aseswyd eu bod wedi gostwng fwyaf yn y cyfnod 2002-08 oedd y bryoffitau, gyda bron eu hanner yn gweld dirywiad. O'r rhywogaethau eraill â blaenoriaeth a aseswyd, gwelodd traean y ffyngau a'r cen, bron 40% y fertebrata ac un rhan o bump yr infertebrata ostyngiad yn yr un cyfnod.

2.3.2 Ansawdd aer

77. Mae'r crynodiadau uchaf o oson ar lefel y ddaear wedi gostwng dros y 30 mlynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd graddol o ryw 0.2ppb bob blwyddyn yn y crynodiadau cefndir ar draws ogledd Ewrop, gan niweidio rhai planhigion.

78. Mae amonia'n parhau'n broblem, hynny fel llygrydd aer lleol ac fel cyfrannwr at ffurfio deunydd gronynnol eilaidd. Mae crynodiadau o ddeunydd gronynnol eilaidd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru, yn bennaf yn sgil newid arferion ffermio.

79. Mae mwy na'r llwyth critigol o nitrogen wedi'i ddyddodi ar 90% o'r cynefinoedd lled-naturiol yng Nghymru sy'n sensitif i nitrogen.

2.3.3 Dŵr croyw

80. Mae gan Gymru ryw 24,000km o afonydd a nentydd. Mae tua 15% o dir y wlad yn draenio i 558 o lynnoedd, gan gynnwys dros 150 o gronfeydd mawr, gydag arwynebedd o 8,143 ha. Mae ansawdd y dŵr mewn afonydd wedi gwella ar y cyfan dros y 25 mlynedd ddiwethaf, yn bennaf yn sgil gwella systemau trin carthion. Ond yn 2015, nid oedd 63% o'r holl gyrff dŵr croyw fel y'u diffiniwyd gan y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr yn cyrraedd statws da neu well.

81. Mae cysylltiad clos rhwng ansawdd dŵr a lliw dŵr mewn cynefinoedd dŵr croyw a chyflwr y cynefinoedd tirol o'u hamgylch.

82. Dangosir statws cyffredinol (2015) afonydd, llynnoedd a dŵr daear yng Nghymru yn nhabl 2.5.

Tabl 2.5: Statws afonydd, llynnoedd a dŵr daear yng Nghymru, 2015

	Uchel	Da	Cymhedrol	Drwg	Gwael
Afonydd ^(a)	0	285	374	55	3
Llynnoedd	1	17	96	9	1
Dŵr daear	NA	22	NA	16	NA

(a) Heb gynnwys camlesi a throsglwyddo dŵr wyneb.

Ffynhonnell: SoNaRR CNC 2016

83. Yr elfen sy'n methu amlaf yw:

- afonydd – pysgod, ffosfferws a metalau
- llynnoedd – infertebrata a ffosfforws
- dŵr daear – metalau.

84. Llygredd o ardaloedd gwledig yw'r rheswm pennaf ar ôl newidiadau ffisegol pam nad yw cyrff dŵr yng Nghymru yn cyrraedd statws da. Mae'n effeithio ar 150 o gyrff dŵr yng Nghymru. Mae rhesymau pwysig eraill yn cynnwys llygredd o garthion a dŵr gwastraff, llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth a llygredd o fwyngloddiau.

85. Nodwyd y bydd newidiadau yn yr amodau hydrolog yn effeithio neu'n debygol o effeithio ar 45 o safleoedd Natura 2000. Dim ond un o bob chwe math o gynffwr dŵr cryw sydd mewn cyflwr Cadwraethol Ffatriol. Mae llawer o'r dirywiad yng nghyfeirioedd afonydd a gorlifdiroedd Natura 2000 yn gysylltiedig â newidiadau hanesyddol a chyfredol. Mae rhwystrau ar lawer o wlyptiroedd yn effeithio ar eu hydroleg naturiol gan newid llif dŵr sydd, yn ogystal ag effeithio ar yr hydroleg, yn gallu arwain at ddargyfeirio dŵr maeth-gyfoethog i safleoedd.

86. Gall gorddraenio, newidiadau amaethyddol a thorri gormod o fawn arwain at ddraenio dŵr o fawnogydd a'u sychu. Mae hynny'n amharu ar allu gwlyptiroedd i reoli dŵr llifogydd a gweithio fel storfa garbon. Mae llynnoedd Natura 2000 ar iseldir ac ucheldir Cymru yn dioddef oherwydd draenio, codi dŵr a newid yn lefelau'r dŵr a gall hynny effeithio ar eu cyflwr fel cynefin.

87. Mae llif llawer o afonydd Cymru yn sensitif iawn i'r newid yn yr hinsawdd gan fod y llif yn tueddu i godi a gostwng yn gyflym pan fydd hi'n glawio. Bydd llif isel mewn afonydd yn golygu mwy na lleihau adnoddau dŵr. Er enghraifft, gallai llif is a newidiadau oherwydd hynny i ansawdd a thymheredd y dŵr effeithio ar bysgod sy'n mudo a silio, gan ostwng ansawdd pysgodfeydd mewndirol Cymru. Gallai llif cryfach yn y gaeaf gynyddu'r pwysau ar garthffosydd a systemau draenio a gwasgaru llygredd.

2.3.4 Pridd

88. Mae pridd Cymru'n storio 410 miliwn o dunelli o garbon. Mae'r carbon yn yr uwchbridd yn sefydlog ar y cyfan ac mae'r pridd yn dal i wella ers ei asideiddio. Mae'n dal i fod yn well na'r lefelau optimwm (44%) mewn llawer o gaeau amaethyddol.

89. Mae pridd y tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol ac o'r ansawdd gorau yn adnodd prin y mae terfyn iddo, yn cyfrif am lai na 7% o dir Cymru²².

90. Mae ansawdd y pridd ym mhob cynefin wedi dirywio, heblaw mewn coetir lle mae'r ansawdd wedi gwella ychydig. Nid yw difrifoldeb a gwasgariad erydiad tir wedi'i fesur yng Nghymru. Credir bod y pridd mewn tua 10-15% o gaeau pori yng Nghymru a Lloegr wedi'i orgywasgu a bod 50-60% mewn cyflwr cymedrol. Nid oes data am y graddau y mae tiroedd pori ac âr wedi'u cywasgu yng Nghymru'n benodol.

91. Ystyrir mai dim ond 30% o fawnogydd Cymru sydd mewn 'cyflwr da'. Amcangyfrifir bod 74% o briddoedd cynefin sy'n sensitif i asid yn derbyn mwy o asid na'u gallu i niwtraleiddio llygredd aer.

92. Nid oes tuedd i'w gweld yn niferoedd infertebrata'r pridd.

2.3.5 Ecosystemau'r tir: Mynydd, rhos a gwaun

93. Mae dros 261,824 ha o dir Cymru (13%) yn fynydd, rhos a gwaun. Mae 70,130 ha (27% o'r cyfanswm) o gynefinoedd mynydd, rhos a gwaun Cymru yn SoDdGAoedd – 188 ohonynt. Mae rhannau helaeth yn dod o dan y cynllun Glastir gyda mesurau rheoli i sicrhau eu bod yn cael eu pori'n briodol.

94. Mae cyflwr rhwng 63% a 73% o'r cynefinoedd mynydd, rhos a gwaun mewn SoDdGAoedd sy'n cael eu pori o dan yr amodau lleiaf dwys yn anffatriol. Yn ôl yr asesiad o statws cadwraeth y 15 cynefin a gysylltir â mynydd, rhos a gwaun ac a restrir yn Atodiad 1 Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE²³, maent naill ai'n ddrwg neu'n ddiffygiol. Mae cynefinoedd mynydd, rhos a gwaun ar lawr gwlad yn cael eu darnio ac felly'n dioddef o ddiffygiol cysylltedd.

²² Mae'r system Categoriâu Tir Amaethyddol yn rhoi syniad sut mae ansawdd tir yn amrywio ar draws Cymru. Gweler y Map Rhagweld y Categoriâu Tir Amaethyddol.

²³ Cyfarwyddeb Cyngor 92/43/EEC dyddiedig 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwylt.

95. Mae 60% o'r mawn dwfn yng Nghymru i'w weld yn y cynefinoedd mynydd, rhos a gwaun, gyda'r rhan fwyaf ohono'n orgors. Mae arwyddion o newid oherwydd draenio ac effeithiau defnyddiau tir eraill i'w gweld ar ryw 59% o'n gorgorsydd. Ceir lleiniau helaeth o fawn dwfn yn rhannau eraill yr ucheldir, yn bennaf mewn planhigfeydd conwydd, glaswelltir sur, gweundir a glaswelltir wedi'i wella. Prin 100ha o fawn sy'n foel oherwydd erydu, ond ceir y moelni hwn mewn rhagor na 180 o safleoedd. Ceir rhyw 2,000km o ffosydd draenio ym mawnoygydd yr ucheldir. Mae o leiaf 742km ohonynt wedi'u cau ac yn cyfrannu eisoes at wella bioamrywiaeth, at ddal a storio mwy o garbon ac at leihau'r risg o lifogydd.

2.3.6 Ecosystemau'r tir: Glaswelltir lled-naturiol

96. Mae bron dwy ran o dair o dir Cymru'n borfa. Mae'r rhan fwyaf ohono (mwy na 1,000,000 ha) yn dir wedi'i wella a dim ond rhyw 192,000 ha sy'n laswelltir lled-naturiol (9% o'r gorchudd tir yng Nghymru). Ceir rhyw 78,000 ha o gynefin glaswelltir â blaenoriaeth, mwy na 90% ohono ar lawr gwlad.

97. Mae arwynebedd y glaswelltir lled-naturiol ar lawr gwlad wedi gostwng yn syfrdanol ers y 1930au. Mae glaswelltir iseldir sych wedi diodde'n neilltuol, gan grebachu rhyw 97% yn y cyfnod hwnnw, sy'n golygu, er enghraifft, mai dim ond 1,600 ha o laswelltir niwtral heb ei wella sydd ar ôl; collwyd rhyw 91% ohono yng Nghymru rhwng y 1930au a'r 1990au. Mae glaswelltir lled-naturiol yr iseldir yn y rhan fwyaf o ardaloedd wedi'i ddarnio'n ddifrifol, gan gyfyngu ar allu rhywogaethau llai mudol i fynd o lain i lain o gynefin. Credir bod graddfa'r golled o ran glaswelltir lled-naturiol wedi arafu, er ein bod yn parhau i golli glaswelltir lled-naturiol o ansawdd uchel ar yr iseldir yn yr 21ain ganrif.

98. Barnwyd bod 92% o'r glaswelltir mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru mewn cyflwr anffafriol. Yn ôl arolwg cyflym o'r glaswelltir mewn SoDdGAoedd yng Nghymru yn 2003, amcangyfrifwyd mai dim ond 43% oedd mewn cyflwr ffafriol.

2.3.7 Ecosystemau'r tir: Ffermdir wedi'i amgáu

99. Ceir rhyw 1 miliwn ha o ffermdir wedi'i amgáu (tua 54% o'r tir amaethyddol). Mae'n bwysig iawn o ran cynhyrchu bwyd gan effeithio yn sgîl hynny ar bridd, dŵr, bioamrywiaeth ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r arwynebedd o dan gnydau â'r garddwriaethol (87,000 ha) wedi cynyddu 35% dros y deng mlynedd diwethaf, er nad yw'n cyfateb i fwy na rhyw 8.7% o'r ffermdir sydd wedi'i amgáu.

100. Y planhigion sy'n gysylltiedig â thir â'r yw'r grŵp o blanhigion sydd dan fwyaf o fygythiad yn y DU, gyda 54 o rywogaethau naill ai'n brin neu o dan fygythiad. Roedd chwyn ydau a chynefinoedd ymylon caeau'n eang ac yn gyffredin tan y 1950au pan ddechreuwyd defnyddio chwynladdwyr yn helaeth. Ers hynny, mae'r cymunedau planhigion hynny a'r ffawna sy'n gysylltiedig â nhw wedi prinhau'n raddol wrth i ddulliau ffermio ddwysáu. Gwelwyd dirywiad arwyddocaol yng nghyfoeth rhywogaethol tir â'r Cymru rhwng 1998 a 2007. Mae'r colledion o ran rhywogaethau wedi arafu yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd y cynnydd mewn ffermio organig a chymorth cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

101. Amcangyfrifir bod yna 106,000 km o berthi/gwrychoedd yng Nghymru, ond mae 78% ohonynt mewn cyflwr anfoddfaol. Gwelwyd gostyngiad o 3.9% rhwng 1998 a 2007 yn nifer y coed perthi. Mae rhyw 5,800 km o berthi wedi'u hadfer neu ar fin cael eu hadfer o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

102. Amcangyfrifwyd y bu 94% o ostyngiad yn arwynebedd perllannau traddodiadol rhwng 1958 a 1992. Mae perllannau traddodiadol yn dod yn fwyfwy prin, oherwydd esgeulustod, dulliau ffermio dwys a datblygiad; gan fygwth y fioamrywiaeth sy'n nodweddiadol ohonynt.

2.4 Prif ymrwymïadau amgylcheddol Llywodraeth Cymru

2.4.1 Carbon

103. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau allyriadau a chefnogi twf economi carbon isel mewn ffyrdd a fydd yn dod â'r manteision mwyaf i Gymru ac yn sicrhau cymdeithas decach ac iachach.

Dangosir y targedau, cyllidebau carbon a'r llwybrau i 2030 ar gyfer y sector defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth, a'r sector amaethyddol, yn Nhabl 2.6.

Tabl 2.6: Targedau, cyllidebau carbon a'r llwybrau i 2030 ar gyfer y sector defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth, a'r sector amaethyddol

Sector	Y targed allyriadau ar gyfer 2020	Dyraniad Cyllideb Carbon 1 (CC) y Sector	Llwybr y sector i 2030
Sector defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF)	Bydd y sector LULUCF yn dal i fod yn ddalfa garbon yn unol â lefelau'r llinell sylfaen yn y flwyddyn 2020.	Rydym am i'r sector barhau i fod yn ddalfa garbon.	Byddwn yn cynyddu dalfa garbon LULUCF yng Nghymru'n sylweddol erbyn 2030.
Sector amaethyddol	Bydd allyriadau yn 2020 6% yn is nag yn 2016. Mae hyn yn golygu y bydd allyriadau o'r sector amaethyddiaeth 17% yn is na'r llinell sylfaen yn 2020.	Amcangyfrifir mai cyfanswm Cyllideb Garbon 1 ar gyfer y sector amaethyddiaeth yw 27.4 MtCO ₂ e. Mae'r sector amaethyddiaeth yn cyfrannu 12.4% o gyfanswm Cynllun Gyllideb 1 Cymru.	Bydd allyriadau'r sector amaethyddiaeth yn gostwng 28% o'u cymharu â'r llinell sylfaen (1990) erbyn 2030.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.4.2 Ansawdd yr aer

104. Mae Llywodraeth Cymru law yn llaw â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ei chynlluniau i wireddu ymrwymïadau'r DU i leihau allyriadau'r

5 llygrydd aer pwysicaf, gan gynnwys amonia, yn y dyfodol fel rhan o Raglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol y DU. Dangosir yr ymrwymïadau hyn yn Nhabl 2.7.

Tabl 2.7. Yr ymrwymïadau cenedlaethol i leihau allyriadau

	SO ₂	NO _x	NMVOC	NH ₃	PM _{2.5}
	Sylffwr deuocsid	Ocsidau nitrogen	Cyfansoddion Organig Anweddol heb fethan	Amonia	Deunydd gronynnol
Yr ymrwymïadau cenedlaethol i leihau allyriadau o'u cymharu â llinell sylfaen 2005 (%):					
2020-29	59%	55%	32%	8%	30%
O 2030	88%	73%	39%	16%	46%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Defra, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon

105. Bydd gofyn cyhoeddi Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol y DU a'i chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 1 Ebrill 2019.

2.4.3 Dŵr

106. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella ansawdd ein dŵr mewn afonydd, dyfroedd ymdrochi a chyrrff dŵr eraill ym mhob rhan o Gymru.

107. Mae Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yr UE yn canolbwyntio ar weithio mewn ffordd integredig i warchod yr amgylchedd dŵr a'i ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy. Mae hynny'n gofyn am reoli dŵr mewn ffordd holistaidd, gan edrych ar ddŵr yng nghyd-destun yr ecosystem ehangach a'i symudiad trwy'r cylch hydrolegol. Rhaid i bob corff dŵr feddu ar statws ecolegol da erbyn 2027. Bydd yr holl gyfarwydddebau eraill (dyfroedd ymdrochi, trin dŵr gwastraff trefol a nitradau) yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr.

2.4.4 Pridd

108. Mawnogydd sydd mewn cyflwr ecolegol da sy'n rhoi inni'r amodau gorau ar gyfer dal a storio carbon. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i reoli mawnogydd mewn ffordd gynaliadwy i gynnal cynefin lled-naturiol yng Nghymru. Bydd adfer mawnog yn gwireddu nifer o amcanion gan gynnwys arafu'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, rheoli ansawdd dŵr a llifogydd a gwella statws a natur bioamrywiaeth.

2.4.5 Bioamrywiaeth

109. Ynghyd â'r chwe amcan arall ar gyfer y Gymru gynaliadwy rydym am ei gweld, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn creu'r nod 'Cymru Gydnerth': 'gwlad sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau byw ac iach sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, i hinsawdd sy'n newid).'

110. Mae Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru yn datgan ein huchelgais i wyrdroi'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth, hynny am ei bod o'i hanfod yn werthfawr ac i sicrhau manteision parhaus i gymdeithas. Mae'n esbonio sut y bydd yn gwireddu ymrwymadau Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, y Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth a Thargedau Bioamrywiaeth Aichi²⁴, i stopio'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac yna i wyrdroi'r dirywiad hwnnw.

²⁴ Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a Thargedau Bioamrywiaeth cysylltiedig Aichi, ar gyfer y cyfnod 2011-2020, yn fframwaith trosfwaol ar gyfer bioamrywiaeth yng ngwledydd y Cenhedloedd Unedig.

Pennod 3: Busnesau fferm yng Nghymru

Cyflwyniad


111. Mae'r bennod hon yn edrych ar fusnesau fferm yng Nghymru. Mae'n disgrifio gweithgarwch ffermio yng Nghymru ac yn ystyried incwm busnesau fferm.

112. Mae Ffigur 3.1 yn dangos y berthynas rhwng nifer y ffermydd, trosiant busnesau a thir ffermwyr yng Nghymru²⁵.

113. Mae'r data'n dangos bod ffermydd bach iawn (57% o'r gyfanswm) yn gyfrifol am 6% o gyfanswm y trosiant ac yn ffermio 15% o'r tir fferm. Ar ben arall y raddfa, mae'r 2% sy'n ffermydd mawr iawn yn gyfrifol am 33% o gyfanswm y trosiant ond dim ond 8% o'r tir. Mae ffermydd bach yn rheoli 42% o'r tir fferm ac yn cynhyrchu 24% o gyfanswm y trosiant.

Ffigur 3.1: Nifer y ffermydd, trosiant busnesau a thir fferm, yn ôl maint economaidd y fferm (Cymru 2016)

Mae'r grwpiau maint yn y siart wedi'u rhannu yn ôl amcangyfrif o'r trosiant (allbwn safonol)



Ffynhonnell: Arolwg Amaethyddol Cymru, 2016

3.1 Mathau o ffermydd yng Nghymru

114. Ffermydd sy'n ddigon mawr i allu cynnal o leiaf un gweithiwr amser llawn, wedi'u categorio yn ôl y prif weithgaredd.

115. O'r ffermydd actif yng Nghymru, daliadau gwartheg a defaid yw'r rhai mwyaf niferus ac yn cyfrif am 31% o'r holl ddaliadau actif yn 2016.

116. Gyda'i gilydd, mae daliadau moch neu ddofednod arbenigol, ydau, garddwriaeth a chnydau cyffredinol, yn cyfrif am 3% o'r holl ddaliadau actif. Mae prinder y mathau hyn o ddaliadau yn adlewyrchu hinsawdd a thirwedd arbennig Cymru.

²⁵ Mesurir maint ffermydd yn Ffigur 3.1 mewn ffordd wahanol i'r hyn a ddefnyddir yn Nhabl 3.1 ac mae nifer y ffermydd bach iawn felly yn amrywio ychydig.

Tabl 3.1: Nifer y daliadau yn ôl math o ffermio yng Nghymru, 2013-2016

	2013	2014	2015	2016
Math o ffermio:				
Ydau	234	253	270	260
Cnydau cyffredinol	82	82	93	92
Garddwriaeth	190	188	186	186
Moch neu ddofednod arbenigol	131	123	117	118
Godro	1,722	1,680	1,664	1,628
Gwartheg a defaid	7,721	7,715	7,712	7,676
Cymysg ^(a)	405	429	419	398
Mathau eraill ^(b)	224	218	218	174
Bach iawn ^(c)	14,647	14,034	14,087	13,994
Daliadau segur ^(d)	16,941	10,530	11,900	12,756
Daliadau actif	25,356	24,722	24,766	24,526
Pob math ^(e)	42,297	35,252	36,666	37,282

(a) Cyfuniadau o gnydau a mathau gwahanol o dda byw .

(b) Porfa a phorthiant glas yn bennaf neu geffylau arbenigol.

(c) Mae daliadau sydd ag ond ychydig o weithgarwch amaethyddol yn cael eu grwpio gyda'i gilydd, waeth pa fath o ddaliad sydd dan sylw.

(d) Cafodd y gofrestr daliadau ei hadolygu yn 2014 ac arweiniodd hynny at nodi a dileu nifer o ddaliadau segur.

(e) Mae'r ffigurau'n cynnwys prif a mân ddaliadau.

Ffynhonnell: Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016

117. Ers 2013, gwelwyd gostyngiad o 830 yn nifer y daliadau actif yng Nghymru. Gwelwyd gostyngiad yn nifer pob math o ddaliad actif, ac eithrio ffermydd ydau a ffermydd cnydau cyffredinol.

3.2 Ffermdir yng Nghymru


3.2.1 Proffil y tir ar ffermydd

118. Yn ôl diffiniad yr Undeb Ewropeaidd, mae gan dir yr Ardal Lai Ffatriol (ALFf) lai o botensial na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yng Nghymru, mae hynny'n adlewyrchu'r dirwedd fynyddig a'r glawiad uchel all gyfyngu ar yr opsiynau i ffermyr.

119. Mae tua 80% o holl dir amaethyddol Cymru yn yr ALFf. O holl wledydd y DU, Cymru sydd â'r gyfran fwyaf ond un o dir ALFf. Mae 84% o dir yr Alban yn yr ALFf, a Lloegr sydd â'r gyfran leiaf o 16%.

120. Mae ffermydd yn cael eu categoreiddio'n ffermydd ALFf os oes o leiaf 50% o'u harwynebedd yn dir yn yr ALFf. Rhennir tir yr ALFf yn Ardal dan Anfantais Fawr ac Ardal dan Anfantais.

Figur 3.2: Ardaloedd Llai Ffafirol y Deyrnas Unedig



Tabl 3.2: Tir Amaethyddol yng Nghymru, 2016

	ALFf Dan anfantais	Dan anfantais fawr	Y tu allan i'r ALFf	Cyfanswm
Cnydau a phorfa:				
Tir âr	67,536	85,912	93,610	247,059
Porfa barhaol	308,003	553,853	203,746	1,065,602
Cyfanswm	375,539	639,765	297,356	1,312,661
Porfa arw:				
Hawliau unigol	32,160	211,289	16,747	260,196
Coetir ar ddaliadau amaethyddol	22,920	53,114	13,137	89,171
Pob tir arall ar ddaliadau amaethyddol	4,528	7,135	3,381	15,044
Cyfanswm coetir a thir arall	27,448	60,249	16,518	104,215
Cyfanswm arwynebedd tir amaethyddol	435,147	911,303	330,622	1,677,072

Sylwer: Heb gynnwys tir comin gan na wyddys a yw'n dir ALFf neu beidio.

Ffynhonnell: Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016

121. Mae Tabl 3.2 yn dangos gwasgariad a'r mathau o dir amaethyddol yn yr ALFf yng Nghymru. Roedd 64% o dir yr ALFf yng Nghymru o dan borfa barhaol yn 2016 tra bod 11% yn dir âr.

122. Mae Tabl 3.3 yn dangos mai'r ffermydd gwartheg a defaid yn yr ALFf yw cyfran fwyaf y tir amaethyddol yng Nghymru (46% o'r tir). Garddwriaeth sy'n meddiannu'r gyfran leiaf o dir amaethyddol.

Tabl 3.3: Nifer hectarau yng nghyfanswm yr arwynebedd a maint cyfartalog ffermydd yn ôl math o fferm yng Nghymru, 2016

	Nifer hectarau cyfanswm yr arwynebedd	Maint cyfartalog ffermydd (hectarau)
Math o ffermio:		
Ydau	39,579	152
Cnydau cyffredinol	11,372	124
Garddwriaeth	4,353	23
Moch neu ddofednod arbenigol	4,501	38
Godro	185,574	114
Gwartheg a defaid (ALFf)	764,654	117
Gwartheg a defaid (llawr gwlad)	81,562	70
Cymysg	47,499	119
Mathau eraill	11,386	65
Rhan-amser/bach iawn	210,441	15
Daliadau segur	316,153	25
Daliadau actif	1,360,919	55
Pob math	1,677,072	45

Sylwer. Mae 'eraill' yn cynnwys ceffylau, geifr a phorfa arbenigol a mathau amhosib eu categorieiddio.

Ffynhonnell: Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016

123. Mae Ffigur 3.3 yn dangos y gweithgarwch amaethyddol mwyaf²⁶ ym mhob un o'r 235 o Ardaloedd Bach²⁷ yng Nghymru yn 2017.


Ffermio defaid sydd â'r gyfran fwyaf o weithgarwch amaethyddol yn y nifer uchaf o Ardaloedd Bach (104), tra bo gwartheg²⁸ sydd â'r gyfran uchaf yn y nifer lleiaf (9).

²⁶ Mae hwn yn dangos y gweithgaredd sydd â'r gyfran fwyaf, nid y gyfran fwyafrifol.

²⁷ Ceir tua 100-200 o ffermydd ym mhob Ardal Fach. Ardaloedd Bach sy'n benodol i amaethyddiaeth yw'r rhain.

²⁸ Gwartheg heblaw gwartheg benyw godro sydd wedi bwrw llo.

Figur 3.3: Y Gweithgarwch Mwyaf mewn Ardal Fach, Cymru 2017



3.2.2 Maint y fferm

124. Mae ffermydd yng Nghymru yn fach (45 hectar ar gyfartaledd) o'u cymharu â ffermydd gweddill y DU. Yn yr Alban y ceir y ffermydd mwyaf (113 ha ar gyfartaledd) ac yng Ngogledd Iwerddon y mae'r lleiaf (41ha). Mae 54% o ddaliadau Cymru'n llai na 20ha o faint. O'u diystyru, mae arwynebedd ffermydd yng Nghymru yn codi i gyfartaledd o 99ha (o'i gymharu â 292ha yn yr Alban a 62ha yng Ngogledd Iwerddon).

125. O'r holl fathau o ffermydd, ffermydd ydau yw'r mwyaf ar y cyfan, yn 152ha o faint ar gyfartaledd.

126. O'r mathau mwyaf cyffredin yng Nghymru (da byw), ffermydd godro yw'r mwyaf cyffredin ar gyfartaledd a ffermydd gwartheg a defaid ar lawr gwlad ar gyfartaledd yw'r lleiaf.

3.2.3 Tir ar rent

127. Mae ffermwyr sy'n denantiaid, a chytundebau rhentu tir, yn elfen bwysig o amaethyddiaeth yng Nghymru.

128. Roedd 9% o'r daliadau a ymgeisiodd am y Taliad Sylfaenol a/neu Glastir yn 2018 yn ffermydd ar rent, ac roedd 29% yn ddaliadau o dan ofal tenant a pherchennog. Roedd 52% o ddaliadau o dan ofal y perchennog yn unig.

129. O'r holl dir yng Nghymru y gwnaed cais am BPS a/neu Glastir ar ei gyfer, roedd dros ei chwarter yn dir rhentu.

130. Mae'r Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) yn amcangyfrif bod 35% o'r cytundebau rhentu yn 2017-18 yn para llai na blwyddyn.

Tabl 3.4: Perthynas ymgeiswyr BPS a Glastir 2018 â'u tir ^(a)

Cyfanswm Arwynebedd RPW (ha)	1,366,406
Canran yr arwynebedd ar rent	27%
Canran o dan ofal y perchennog	73%
Canran y daliadau ar rent yn unig	9%
Canran y daliadau o dan ofal tenant a pherchennog	39%
Canran y daliadau o dan ofal y perchennog yn unig	52%

(a) RPW ddarparodd y data ac nid ydynt yn cynnwys ffermydd bob ochr y ffin (ffermydd yn Lloegr a dalwyd gan Gymru a ffermydd yng Nghymru a dalwyd gan Loegr).

Ffynhonnell: Data o Ffurflen Cais Sengl 2018 Taliadau Gwledig Cymru

131. Gallai cynnydd ym mhreis tir roi ffermwyr sy'n rhentu tir o dan anfantais os yw hynny'n codi rhenti hefyd. Bydd ffermwyr sy'n berchen ar eu tir ar eu hennill yn sgil cynnydd yng ngwerth eu tir (trwy gynyddu gwerth eu hasedau a'i gwneud yn haws iddynt allu cael benthyg tir ar sail gwerth eu tir a chynyddu rhent eu tir o bosib os oes ganddynt dir sydd wedi'i roi ar rent).

132. Roedd hi'n ddrutach rhentu tir pori yng Nghymru ar gyfartaledd yn hanner cyntaf 2018 nac yr oedd yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd, fel y gwelwch yn Nhabl 3.5.

133. Roedd tenantiaethau amaethyddol llawn²⁹ (Tenantiaethau Deddf Daliadau Amaethyddol 86) yn rhatach na Thenantiaethau Busnes Fferm³⁰ ((Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 95) yn hanner cyntaf 2018. Dyna oedd y patrwm trwy'r DU gan adlewyrchu'r gwahaniaeth yn hyd y ddau fath o gytundeb. Mae'r ffaith bod Tenantiaethau Busnes Fferm yn fyrrach yn golygu bod rhenti'n cael eu hadolygu'n amlach ac yn fwy tebygol o adlewyrchu cynnydd yng ngwerth y tir.

²⁹ Mae tenantiaethau Deddf 86 yn aml yn para oes gyda hawliau olyn cysylltiedig. Cytunwyd ar y tenantiaethau hyn cyn 1 Medi 1995.

³⁰ Cytunwyd ar denantiaethau Deddf 95 ar ôl 1 Medi 1995. Gall landlordiaid a thenantiaid ddod â'r contractau hyn i ben trwy Hysbysiad Ymadael.

Tabl 3.5: Arolwg Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig o'r Farchnad ar gyfer Tir Gwledig H1 2018: Rhenti yn hanner cyntaf 2018

	Tir âr (£/erw) Deddf 86	Rhenti Deddf 95	Tir pori (£/erw) Deddf 86	Rhenti Deddf 95
Cymru	65	140	65	100
Cymru a Lloegr	76	144	57	93

Ffynhonnell: Arolwg RICS o'r Farchnad ar gyfer Tir Gwledig

134. Mae Tabl 3.6 yn dangos bod gwerth net busnesau fferm â thenant yn is na ffermydd sy'n cael eu ffermio gan y perchennog neu sydd o dan ofal perchennog a thenant. Mae hyn yn ddisgwyliedig gan nad yw tenantiaid yn berchen ar y tir na'r adeiladau sy'n cael eu defnyddio i redeg eu busnes.

135. Asedau sefydlog (fel tir, adeiladau, hawliau BPS a pheiriannau) yw'r rheini nad ydynt yn debygol o allu cael eu troi'n arian parod yn rhwydd, ond gallai busnes fferm gael benthyciad ar sail eu gwerth.

136. Mae gan fusnesau fferm sy'n cael eu ffermio gan y perchennog asedau sefydlog a chyfredol uwch eu gwerth na ffermydd â thenant. Os oes gan fusnes asedau sefydlog uwch eu gwerth, bydd yn haws iddo gael benthyciad.

137. Bydd ffermydd sydd â rhwymedigaethau cyfredol (gorddrafft, dyledion tymor byr) sy'n fwy na'r asedau cyfredol (arian parod, cynilon, cyfranddaliadau) yn wynebu problemau ariannol tymor byr o bosib gan na fydd modd cael at yr asedau sefydlog yn gyflym i dalu am y ddyled. Cewch fwy o fanylion am werth net fferm yn adran 3.8.

Tabl 3.6: Asedau, rhwymedigaethau a gwerth net ffermydd ar gyfartaledd yn ôl yr Arolwg o Fusnesau Ffermio yng Nghymru yn ôl deiliadaeth, 2017-18

Deiliadaeth	Ar gyfartaledd fesul fferm (£)					
	Asedau – tir ac adeiladau	Asedau – sefydlog eraill	Asedau – cyfredol	Rhwymedigaethau – sefydlog	Rhwymedigaethau – cyfredol	Gwerth net
Ar rent	18,500	161,100	47,800	-11,900	-23,600	191,900
Ar rent yn bennaf	526,700	215,300	99,400	-107,200	-50,000	684,100
O dan ofal perchennog yn bennaf	1,027,100	216,600	93,800	-118,500	-34,100	1,184,900
O dan ofal perchennog	1,116,800	182,000	79,800	-78,900	-28,500	1,271,200
Pob deiliadaeth	937,400	194,500	83,900	-88,800	-32,400	1,094,600

Ffynhonnell: Amcaniongyfrifon wedi'u hailbwysoli o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

3.2.4 Tir comin yng Nghymru

138. Tir yw tir comin y mae gan bartion nad ydynt yn berchen arno hawliau penodol arno. Gall hawliau tir comin gynnwys yr hawl i bori da byw neu i gasglu pren.

139. Mae hawliau tir comin yn eiddo'n aml i'r rheini sy'n berchen ar dir neu adeiladau gerllaw. Mae gan 98% o arwynebedd tir comin yng Nghymru hawliau tir comin cysylltiedig.

140. Mae tiroedd comin yn dod o dan amrywiaeth o drefniadau rheoli ac mae gan rai fwy nag un perchennog. Nid yw perchennogion tir fel arfer yn cael cynnal unrhyw beth ar dir comin all amharu ar yr hawliau tir comin.

141. Mae tua 9.7% o dir amaethyddol Cymru yn dir comin. Mae hynny'n gyfwerth â rhyw 180,000ha. Mae'r rhan fwyaf o'r tir comin yng Nghymru'n cael ei ddefnyddio at ddiben amaethyddol.

142. Mae hawliau pori'n gyffredin ar diroedd comin ledled Cymru. Mae gan 52% o'r tiroedd comin hawliau i bori defaid ac mae gan 35% ohonynt hawliau i bori gwartheg.

143. Mae mwy na 65% o diroedd comin Cymru o dan 'reolaeth actif'³¹ o dan Gynllun Tir Comin Glastir.

3.3 Incwm busnes y fferm yng nghyd-destun incwm aelwyd y fferm

144. Mae incwm fferm yng Nghymru'n cael ei fesur fel Incwm Busnes Fferm. Mae hwn yn fesur o broffidioldeb y fferm. Mae'n adlewyrchu elw net³² y fferm ond nid yw'n cynnwys ffynonellau incwm eraill yr aelwyd, er enghraifft swyddi gŵr/gwraig oddi ar y fferm. Mae Incwm Busnes y Fferm yn cynnwys pedair prif ffynhonnell incwm:

- incwm o amaethyddiaeth (da byw a chnydau a sgil-gynhyrchion)
- incwm o gynlluniau amaeth-amgylcheddol (e.e. Glastir)
- incwm o'r BPS (y taliad sengl gynt)
- incwm o arallgyfeirio (incwm o weithgareddau anamaethyddol sy'n defnyddio adnoddau'r fferm).

Mae Incwm Busnes y Fferm yn gyfwerth â:

Allbynnau Busnes y Fferm (trosiant) –
Mewnbynnau Busnes y Fferm (costau)

145. Amcangyfrifir Incwm Busnesau Ffermydd Cymru ar sail yr Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) sy'n edrych ar sampl o ffermydd sydd ag allbwn safonol blynyddol o o leiaf €25,000³³ (tua £21,000 yn Chwefror 2019). Mae yna ryw 14,000 o ffermydd yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr FBS gan eu bod yn cwmpo o dan y trothwy o €25,000.

146. Mae tua 550 o fusnesau fferm yn rhan o sampl yr arolwg blynyddol hwn, hynny o ryw gyfanswm o 10,000 o ffermydd.

147. Mae'r arolwg yn cyhoeddi data yn ôl y prif fathau o ffermydd yng Nghymru, sef gwartheg a defaid a godro. Y ffermydd hyn yw'r rheini sy'n derbyn y gyfran uchaf o holl arian y BPS. Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ffermydd yr FBS, oni dywedwn yn wahanol.

148. Mae 57% o ddaliadau Cymru'n rhai 'bach iawn', sy'n golygu nad ydynt yn rhoi digon o waith ar gyfer un gweithiwr amser llawn. Mae hyn yn golygu dau beth: yn gyntaf, nid yw'r ffermydd hyn yn cael eu cynnwys yn yr FBS ond hefyd, mae'n debygol bod gan y ffermydd hyn ffynonellau incwm eraill fel swyddi oddi ar y fferm ac incwm gŵr/gwraig. Mae'r ffynonellau incwm ychwanegol hyn yn debygol o ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â'r fferm gan felly ei gwneud hi'n anodd rhagweld ymatebion i newidiadau yn y farchnad.

³¹ 'Mae 'reolaeth actif' yn golygu cyfradd stocio gyfartalog flynyddol, sy'n cynnwys lwfans ar gyfer pori'r tir comin dros y gaeaf neu gyfnod gwahardd dros y gaeaf ac sy'n briodol yn ôl y cynefinoedd ar y tir comin.

³² Mae Incwm Busnes Fferm yn cyfateb i Elw Ariannol Net ond yn ymarferol, mae'r ddau fesur yn wahanol. Seilir Elw Net ar egwyddorion cyfrifon ariannol ond seilir Incwm Busnes Fferm ar egwyddorion cyfrifon rheoli. O ran cyfrifon ariannol, mae'r stoc yn cael ei phrisio yn ôl cost ei chynhyrchu; o ran cyfrifon rheoli, mae'r stoc yn cael ei phrisio yn ôl ei phris ar y farchnad. Mewn cyfrifon ariannol, cyfrifir dibrisiant yn ôl costau hanesyddol ond mewn cyfrifon rheoli, fe'u cyfrifir yn ôl cost cael rhai newydd yn eu lle.

³³ Mae'r allbwn safonol yn fesur o faint economaidd y fferm. Caiff y gwerth ei gyfrifo mewn Ewros ar sail yr allbwn safonol fesul y pen o dda byw neu hectar o dir. Mae'n disgrifio gwerth cyfartalog allbwn amaethyddol yn ôl y pris wrth gât y fferm. Mae ffermydd economaidd mawr yn creu mwy o allbwn ac felly mae gwerth eu hallbwn safonol yn uwch.


149. Mae tystiolaeth o'r FBS (Ffigur 3.2) yn awgrymu bod swyddi oddi ar y fferm yn ffynhonnell incwm i ffermydd o bob maint ond bod eu pwysigrwydd yn lleihau wrth i faint y fferm gynyddu. Mae cyfran uwch o incwm aelwyd ffermydd bach, ar gyfartaledd, yn dod o ffynonellau oddi ar y fferm na ffermwyr mwy.

150. Mae hwn yn batrwm sydd i'w weld ledled Ewrop. Mae tystiolaeth o wledydd eraill yn awgrymu bod rheolwyr ffermydd bach yn tueddu i weithio llai o oriau na rheolwyr ffermwyr mwy, ac yn tueddu i wneud mwy o weithgareddau am dâl y tu allan i'w daliadau na rheolwyr ffermydd mwy.

Ffigur 3.4:
Incwm busnes fferm ar gyfartaledd o'i gymharu ag incwm yr aelwyd 2017-18 (£ miliwn)

■ Cyfran y prif ffermwr o incwm busnes ffermydd
■ Incwm o'r tu allan i'r fferm

Ni chaiff ffermydd bach iawn eu samplu yn yr Arolwg Busnesau Fferm



Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwsolwyd o'r Arolwg o Ffinesau Ffermio

151. Amcangyfrifwyd mai £34,434 oedd incwm aelwyd fferm (ffermydd o bob maint) ar gyfartaledd yn 2016-17. Mae'r ffigur ar gyfer ffermydd mawr iawn yn codi i £49,257 ac amcangyfrifir mai £30,549 yw incwm net ffermydd bach. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys yr holl incwm a enillir ar y fferm ac oddi ar y fferm gan y ffermwr ac aelodau eraill (e.e. priod) yr aelwyd.

152. O'r fan hon ymlaen, rydym am ganolbwyntio ar Incwm Busnes y Fferm gan fod y cymorth amaethyddol a roddir yng Nghymru yn targedu busnesau fferm.

153. Mae cynlluniau cymorth amaethyddol wrth reswm yn dylanwadu ar gyllidebau aelwydydd fferm ond fel y dengys Ffigur 3.4, y patrwm bras yw bod gan ffermydd bach incwm llai a bod gan ffermydd mwy incwm mwy, ac mae hynny'n wir o ran incwm yr aelwyd ac incwm y busnes.


154. Ceir tystiolaeth o'r FBS yn Lloegr mai'r prif reswm am unrhyw newid yn incwm aelwyd y fferm yw newid yn incwm busnes y fferm, felly er mwyn deall y newid yng nghyllideb yr aelwyd, rhaid deall y busnes.

3.3.1 Incwm busnes y fferm

155. Gwelwyd gostyngiad o 17% mewn termau real yn Incwm Busnes Ffermydd yr FBS ar gyfartaledd rhwng 2003-04 a 2016-17. Mae incwm busnes ffermydd yng Nghymru wedi cwmpo ar gyfartaledd 6 mlynedd o'r 15 diwethaf, ond cafwyd hefyd flynyddoedd o dwf sylweddol. Rhwng 2016-17 a 2017-18, gwelwyd incwm busnes ffermydd yn codi ar gyfartaledd 41%.

156. Fel y dengys Ffigur 3.5, mae incymau fferm yn gallu amrywio rhwng ac o fewn blynyddoedd a mathau o ffermydd. Mae hyn yn adlewyrchu pwysau gwahanol ar y farchnad.

Ffigur 3.5:
Incwm Busnes
Ffermydd ar
gyfartaledd mewn
termau real yn ôl
prisiau 2017-18,
Cymru (£)



Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth wedi'u hailbwsoli o'r Arolwg o Fusnesau Fferm

157. Er enghraifft, gwelodd y diwydiant godro ostyngiad o 53% yn incwm cyfartalog y fferm rhwng 2014-15 a 2015-16. Y rheswm pennaf am hynny oedd y cwmp o 25% ym mhris llaeth yng Nghymru a ddigwyddodd yr un pryd â chynnydd yn yr allbwn llaeth. Ond rhwng 2016-2017 a 2017-18 ar y llaw arall, cododd incwm busnes ffermydd godro ar gyfartaledd 158% i adlewyrchu cynnydd ym mhrisiau llaeth.

158. Mae hyn yn tanlinellu pa mor anodd yw hi i fusnesau fferm allu ymateb yn gyflym i newidiadau yn y farchnad. Mae gofyn gwneud penderfyniadau ynghylch cynhyrchiant fferm fisoedd ymlaen llaw ac mae angen amser i leihau neu gynyddu allbwn wrth ymateb i'r farchnad.

3.4 Incwm busnesau fferm yn ôl ffynhonnell


3.4.1 Elfennau o incwm fferm

159. Nodwyd y pedair elfen o incwm fferm yn Adran 3.3 uchod. Drwy archwilio'r ffynonellau incwm hyn yn unigol, mae hynny'n rhoi syniad inni o ba elfennau incwm sy'n arbennig o anwadal dros amser.

160. Mae'r amrywiad ar lefel fferm yn eang, ac ym mhob categori fferm mae ffermydd ar naill ochr y sbectrwm incwm. Ar ben hynny, mae incwm yn amrywio o fewn ffermydd flwyddyn ar ôl blwyddyn.

161. Fel y dengys Ffigur 3.6, o fewn pob categori fferm, roedd incwm rhai ffermydd yn fwy na £50,000 yn 2017-18, ond roedd y gyfran uchaf ohonynt yn ffermydd godro. Roedd gan ffermydd defaid a gwartheg llawr gwlad y gyfran uchaf o ffermydd ag incwm negyddol, a'r gyfran isaf a oedd yn ennill £50,000 neu fwy. Ar draws pob categori fferm, roedd gan ryw 15% o ffermydd incwm negyddol yn 2017-18.

Ffigur 3.6:
Amrywiad o ran incwm busnesau fferm yn 2017-18 yn ôl categori fferm (%)



Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Ffermio

Incwm sy'n deillio o amaethyddiaeth

162. Dengys Tabl 3.7 gyfartaledd yr incwm sy'n deillio o amaethyddiaeth (heb gynnwys costau) ar draws pob categori fferm. Dangosodd ffermydd defaid a gwartheg llawr gwlad ryw £7,000 o amrywiad o ran incwm dros y pedair blynedd. Gwelwyd yr amrywiad mwyaf ymhlith ffermydd godro, gyda gwahaniaeth o ryw £50,000 o incwm rhwng y blynyddoedd a oedd yn dangos y ffigurau uchaf a lleiaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r anwadalwch o ran prisiau llaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

163. Roedd yr incwm o amaethyddiaeth yn weddol sefydlog ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid mewn ardal llai ffatriol (ALFf), er iddo fod yn negyddol ym mhob un o'r pedair blynedd. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, nad oedd y ffermydd hyn wedi gwneud elw o'r ganolfan gostau hon yn unig. O gofio bod cyfartaledd yr incwm busnesau fferm ar gyfer y categori fferm hwn wedi bod yn gadarnhaol (Ffigur 3.2), mae hyn yn awgrymu bod elw yn cael ei wneud mewn rhannau eraill o'r busnes.

Tabl 3.7: Incwm o amaethyddiaeth yn ôl categori fferm (£)

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Y gwahaniaeth rhwng yr incwm mwyaf a lleiaf
Pob fferm	3,400	-1,300	-1,900	5,900	7,800
Godro	49,200	15,200	12,800	62,400	49,600
ALFf Gwartheg a defaid	-6,000	-4,500	-6,200	-5,200	1,700
Gwartheg a defaid llawr gwlad	8,300	1,400	4,100	4,900	6,900

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwsolwyd o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

Incwm sy'n deillio o arallgyfeirio

Tabl 3.8: Incwm o arallgyfeirio yn ôl categori fferm (£)

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Y gwahaniaeth rhwng yr incwm mwyaf a lleiaf
Pob fferm	2,500	3,000	2,800	3,200	700
Godro	1,200	1,500	1,400	1,600	400
ALFf Gwartheg a defaid	2,800	3,500	2,700	3,100	800
Gwartheg a defaid llawr gwlad	2,200	1,200	3,000	2,500	1,800

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwysolwyd o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

164. Mae arallgyfeirio yn disgrifio gweithgarwch anamaethyddol sy'n defnyddio adnoddau fferm. Mae'n cynnig ffordd i fusnesau fferm sicrhau ffrwd incwm arall ac i fod yn gadarn pan fo'r farchnad yn anwadal.

165. Roedd 39% o ffermydd a gymerodd ran yn yr Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) yng Nghymru wedi arallgyfeirio mewn rhyw fodd, ond fel y dengys Tabl 3.8, ychydig iawn o amrywiad sydd rhwng y categorïau fferm o ran y graddau y caiff ei ddefnyddio i gynyddu cyfartaledd incwm fferm.

166. Mae Tabl 3.9 yn dangos amcangyfrifon o'r lefel o arallgyfeirio yn y boblogaeth o'r ffermydd FBS yng Nghymru, a'r math o weithgarwch a wneir. Yr hyn sydd fwyaf cyffredin yw gosod adeiladau at ddefnydd nad yw'n gysylltiedig â ffermio.

167. Ers 2009-2010, rydym wedi gweld 80% o gynnydd yn nifer y ffermydd sy'n arallgyfeirio ond lleiafrif o ffermydd o hyd sy'n gwneud hyn. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y busnesau fferm sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, o sero yn 2009-2010 i 1,714 yn 2017-18. Mae mathau eraill o weithgarwch arallgyfeirio³⁴ wedi gweld cynnydd o 646% yn ystod yr un cyfnod.

³⁴ Mae'n cynnwys gweithgareddau megis crefftiau gwledig a gwaith dan contract nad yw'n gysylltiedig â ffermio.

Tabl 3.9: Arallgyfeirio ar ffermydd FBS yng Nghymru, 2009-2018

	Blwyddyn								
	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
Cyfanswm y ffermydd FBS:	9,226	9,160	9,381	10,102	9,898	9,783	9,826	9,629	9,668
Cyfanswm y ffermydd sy'n ymwneud â gweithgarwch arallgyfeirio^(a):	2,117	2,046	2,404	3,047	3,083	3,281	3,605	3,689	3,806
Y nifer ohonynt sy'n:									
gosod adeiladau at ddefnydd nad yw'n gysylltiedig â ffermio	1,654	1,479	1,477	1,499	1,565	1,646	1,605	2,103	2,223
prosesu/manwerthu cynnyrch fferm	103	66	143	110	129	50	62	49	80
ymwneud â chwaraeon a hamdden	240	264	318	422	233	325	350	342	405
darparu llety a gwasanaeth arlwyio i dwristiaid	187	208	260	334	342	373	259	300	268
ymwneud ag ynni adnewyddadwy ^(b)	0	8	331	924	1,058	1,183	1,400	1,584	1,714
ymwneud â math arall o weithgarwch arallgyfeirio	208	389	477	337	430	622	660	352	1,552

(a) Os ydych yn cyfrif yr holl ffermydd, ni fydd yn creu'r cyfanswm oherwydd gall busnesau fferm ymwneud â mwy nag un math o weithgarwch arallgyfeirio.

(b) Mae ynni adnewyddadwy yn cynnwys cynhyrchu pŵer, tyrbinau gwynt, pŵer solar, treulwyr anaerobig ac o 2014-15 ymlaen, fentrau gwres adnewyddadwy..

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwsolwyd o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

Incwm sy'n deillio o gynlluniau amaeth-amgylcheddol

Tabl 3.10: Incwm sy'n deillio o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ôl categori fferm (£)

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Y gwahaniaeth rhwng yr incwm mwyaf a lleiaf
Pob fferm	4,400	4,400	4,200	4,900	700
Godro	1,300	1,400	900	1,700	800
ALFf Gwartheg a defaid	5,800	5,900	5,600	6,300	700
Gwartheg a defaid llawr gwlad	1,100	1,100	1,600	2,300	1,200

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwsolwyd o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

168. Mae incwm o gynlluniau amaeth-amgylcheddol (heb gynnwys costau) yn ffynhonnell weddol sefydlog o incwm ar gyfer pob fferm. Mae'n dangos yr amrywiad mwyaf ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid llawr gwlad, er ar gyfer y ffermydd hyn, incwm o amaeth-amgylchedd yw'r ffynhonnell incwm lleiaf newidiol.

169. Mae hyn yn adlewyrchu natur hirdymor (5 mlynedd neu fwy) contractau cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar gyfer rhaglenni megis Glastir.

Incwm o Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)/y Taliad Sengl

Tabl 3.11: Incwm o BPS yn ôl categori fferm (£)

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Y gwahaniaeth rhwng yr incwm mwyaf a lleiaf
Yr holl ffermydd	18,700	16,200	19,400	20,500	4,300
Godro	18,500	14,700	16,200	16,700	3,800
ALFf Gwartheg a Defaid	19,500	17,000	21,000	22,700	5,700
Gwartheg a defaid llawr gwlad	15,300	12,700	14,100	14,200	2,600

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwysolwyd o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

170. Mae incwm o BPS/y Taliad Sengl (heb gynnwys costau) yn dangos yr ail amrywiad mwyaf fel ffynhonnell incwm dros y pedair blynedd. Gwelir yr amrywiad mwyaf ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid yn yr ALFf (er ei fod yn hynod gadarnhaol, yn wahanol i incwm o amaethyddiaeth) a'r isaf ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid llawr gwlad.

171. Mae ychydig o'r amrywiad hwn wedi'i achosi yn sgil diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae mwy o wybodaeth am hyn yn Mhennod 4.

3.5 Proffil costau


172. Gellir rhannu costau amaethyddol yn gostau sefydlog a chostau newidiol. Mae modd dyrannu costau newidiol i fenter benodol o fewn busnes y fferm. Mae'r costau hyn yn cynnwys bwyd anifeiliaid, gwrtaith, hadau, plaladdwyr a phrynu porthiant.

173. Costau sefydlog yw'r rheini nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw fenter benodol o fewn busnes y fferm. Mae costau sefydlog yn cynnwys llafur, peiriannau, taliadau llog a rhent.

174. Mae Ffigur 3.7 yn dangos y rhaniad rhwng costau sefydlog a newidiol o ran y ffermydd FBS yn ôl categori fferm.

175. Costau newidiol, ar gyfartaledd, yw ffynhonnell gostau fwyaf ffermydd yng Nghymru ond gwelir amrywiad o fewn y categorïau fferm a rhyngddynt. Mae ffermydd gwartheg a defaid llawr gwlad yn dueddol o gael costau sefydlog cymharol uwch, tra bo gan ffermydd godro ac ALFf gwartheg a defaid gostau newidiol cymharol uwch.

Ffigur 3.7:
Elfennau o Gostau
Amaethyddol yn ôl
Categori Fferm,
Cymru, 2017-18 (£)



Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwysolwyd o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

Tabl 3.14: Dadansoddiad manwl o gyfartaledd costau amaethyddol ffermydd yng Nghymru, yn ôl categori fferm, 2017-18 (£)

	Pob categori fferm	Godro	Gwartheg a defaid (ALFf)	Gwartheg a defaid (llawr gwlad)
Costau busnes ffermydd	124,700	317,600	89,000	82,600
Costau Amaethyddol	118,100	312,000	82,000	77,500
Costau newidiol	64,600	192,400	41,900	35,400
Costau cynydau	11,200	21,100	7,200	8,800
Costau da byw	44,800	146,600	29,500	21,500
<i>Prynu porthiant</i>	27,000	99,100	16,800	9,100
<i>Porthiant a dyfwyd adref</i>	1,800	4,600	600	2,900
<i>Ffioedd a meddyginiaethau milfeddygol</i>	5,000	11,300	4,400	2,400
<i>Costau da byw eraill</i>	11,000	31,600	7,700	7,100
Costau contract	6,600	21,100	3,600	4,700
Llafur achlysurol	1,900	3,600	1,600	400
Costau Sefydlog	53,500	119,500	40,100	42,100
Llafur rheolaidd	4,000	15,000	1,800	2,600
Costau peiriannau	23,700	41,500	19,700	19,800
Costau ffermio cyffredinol	13,800	32,000	10,300	10,300
Costau tir ac eiddo	10,600	30,200	6,600	8,200
Costau sefydlog amrywiol	1,500	900	1,700	1,200

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwysolwyd o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

176. Mae'r ffigurau yn Nhabl 3.14 yn dangos:

- Costau da byw yw'r gost newidiol fwyaf ym mhob categori fferm. Ar gyfartaledd maent yn 69% o'r holl gostau newidiol (pob categori fferm).
- O'r costau da byw, prynu porthiant yw'r gost fwyaf ar draws pob categori fferm ac mae'n amrywio o 68% ar gyfer ffermydd godro i 42% ar gyfer gwartheg a defaid llawr gwlad.
- Ar ôl costau porthiant, 'costau da byw eraill' yw'r ail gost fwyaf ymhlith y costau da byw ar gyfer pob categori fferm. Mae'r costau hyn, ar gyfartaledd, yn gyfrifol am 25% o'r costau. Mae'r categori hwn o gostau yn cynnwys diheintyddion, marchnata, storio cynhyrchion a chostau bridio.

3.6 Allbwn amaethyddol ac elw yn ôl maint economaidd y fferm

177. Mae amrywiad mawr rhwng ffermydd yng Nghymru o ran elw a cholled a wneir o amaethyddiaeth.

178. Gwneir elw pan fo'r allbwn yn uwch na'r costau newidiol a sefydlog.

179. Mae Ffigur 3.8 yn dangos ffermydd FBS yng Nghymru wedi'u rhannu yn ol allbwn amaethyddol a lefel yr elw a wnaed o amaethyddiaeth yn 2017-18.

180. Nid yw'n dangos yr elw a allai fod wedi'i wneud drwy ddulliau eraill (arallgyfeirio, cynlluniau amaeth-amgylcheddol neu BPS) ac felly mae'n rhoi syniad inni o berfformiad busnesau o safbwynt amaethyddol yn unig.


181. Y ffermydd a wnaeth colled sylweddol oedd y rheini a gollodd fwy na £10 am bob £100 o gostau. Y ffermydd sydd heb ennill na cholli oedd y rheini a wnaeth rhwng £10 o golled a £10 o elw am bob £100 a wariwyd, a'r ffermydd a wnaeth elw sylweddol oedd y rheini a wnaeth mwy na £10 am bob £100 o gostau.

182. O'r ffermydd yr oedd eu hallbwn amaethyddol yn llai na £50,000, roedd 67% ohonynt wedi gwneud colled sylweddol o amaethyddiaeth yn 2017-18 tra bo 30% o ffermydd sydd ag allbwn amaethyddol o £200,000 neu fwy wedi gwneud colled yn yr elfen hon o fusnes y fferm 2017-18.

183. Roedd cyfran uwch o'r ffermydd sy'n cyfrannu'n fawr at yr economi wedi gwneud elw sylweddol o gymharu â ffermydd llai. Fodd bynnag, mae ffermydd ym mhob grŵp maint sydd heb ennill na cholli, neu sy'n gwneud elw sylweddol o weithgareddau amaethyddol. Mae hyn yn awgrymu bod ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â maint y fferm yn effeithio ar berfformiad fferm.


Ffigur 3.8:
Ffermydd yn ôl lefel yr elw ac allbwn o amaethyddiaeth 2017-18, Cymru (%)

- Elw sylweddol
- Heb ennill na cholli
- Colled sylweddol



Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwsolwyd o'r Arolwg o Fusnesau

Ffigur 3.9:
Busnesau fferm yn ôl
blwyddyn gyda
cholled mewn
perthynas ag
amaethyddiaeth dros
y 3 blynedd ddiwethaf,
Cymru, 2013–14 i
2016–17 (%)



Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Ffermio

184. Mae Ffigur 3.9 yn dangos ffermydd FBS yng Nghymru wedi'u grwpio yn ôl nifer y blynyddoedd yn ystod y tair blynedd diwethaf y maent wedi gwneud colled o amaethyddiaeth. Y ffermydd sydd wedi'u heithrio yw'r ffermydd sydd heb fod yn rhan o'r boblogaeth am dair blynedd yn olynol.

185. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi syniad inni o gysondeb perfformiad busnesau fferm yng Nghymru.

186. Ar draws pob categori fferm, mae 59% wedi gwneud colled o amaethyddiaeth yn un o'r tair blynedd ddiwethaf o leiaf.

187. Nid oedd 31% wedi gwneud elw o amaethyddiaeth yn unrhyw un o'r tair blynedd ddiwethaf, tra bo 20% wedi gwneud elw bob blwyddyn.

3.7 Perfformiad fferm

188. Yn ôl ymchwil, awgrymir mai gwahaniaethau daearyddol megis topograffi a hinsawdd sy'n gyfrifol am lai na 5% o'r amrywiad ym mherfformiad ffermydd pori da byw.

189. Mae deall pa ffactorau eraill sy'n gyfrifol am yr amrywiad yn allweddol i ddeall sut mae ffermydd yn delio â'r anwadalwch annatod sy'n rhan o'r amaethyddiaeth.

190. Roedd adroddiad yn 2018 gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) ac eraill ar briodoleddau ffermydd sy'n perfformio'n dda yn y DU yn cymharu'r ffermydd ALFf pori da byw oedd ar frig ac ar waelod y rhestr o ran eu perfformiad, a darparwyd y ffigurau a ganlyn.

Tabl 3.15: Newidion sylweddol rhwng ffermydd cyfatebol sy'n perfformio orau a'r rhai sy'n perfformio wanaf^(a)

	Cymedr y perfformwyr gorau	Cymedr y ffermydd cyfatebol sy'n perfformio wanaf
Allbwn amaethyddol (£)	133,900	83,400
Ac ohonynt %:		
Cyfran y gwartheg wedi'u pesgi	30%	20%
Cyfran y defaid wedi'u pesgi	70%	50%
Tenantiaeth		
Tir Tenantiaeth Busnes Fferm	29%	16%
Tir Tenantiaeth Amaethyddol Lawn	17%	32%
Cyfanswm y costau amaethyddol (£)	128,700	126,800
Ac ohonynt %:		
Gorbenion amaethyddol	46%	52%
Costau newidiol amaethyddol	54%	48%
Costau gwrteithiau	7%	5%
Costau ffermio cyffredinol	10%	16%

(a) Mae'r adroddiad yn defnyddio data'r Arolwg o Fusnesau Ffermio yn Lloegr ar gyfer 2011-12 i 2015-16. Mae cyfartaledd wedi'i greu ar draws y blynyddoedd er mwyn lleihau effaith yr anwadalwch blynyddol a wynebwyd gan ffermydd unigol. Rydym yn cymharu lefelau perfformiad ar draws ffermydd er mwyn cymharu'r chwarteli gorau a gwanaf. Gwneir hyn i gydweddu ffermydd sy'n perfformio'n dda a rhai cyfatebol sydd a phriodoleddau tebyg ond sy'n perfformio'n wan ac yna asesu'r gwahaniaethau rhwng y parau hyn.

Ffynhonnell: AHDB (2018). Rhifau wedi'u talgrynnu

191. Mae'r adroddiad yn nodi:

- bod gan y ffermydd sy'n perfformio orau arwynebedd amaethyddol debyg i'w ffermydd cyfatebol sy'n perfformio wanaf;
- bod lefelau'r costau ar gyfer y perfformwyr gorau a gwanaf yn debyg, ond bod y perfformwyr gorau yn creu cryn dipyn mwy o allbwn am yr un faint o fewnbwn. Gallai hynny olygu bod maint yr allbwn yn fwy neu fod gwerth pob uned yn fwy, neu'r ddau;
- gwartheg a defaid wedi'u pesgi sy'n gyfrifol am gyfran uwch yr allbwn y ffermydd sy'n perfformio orau;
- bod gan y ffermydd sy'n perfformio orau lefel uwch o dir dan Denantiaeth Busnes Fferm (a llai o dir dan Denantiaeth Amaethyddol Lawn) na'r perfformwyr gwanaf;

- bod gan y perfformwyr gorau lai o orbenion, sy'n adlewyrchu defnydd mwy effeithlon o gyfalaf, ond bod ganddynt gostau newidiol uwch sy'n dangos eu hawydd i fuddsoddi mewn cynydau a da byw;
- bod costau ffermio cyffredinol, sy'n cynnwys ynni, tanwydd, yswiriant a ffioedd banc, yn is ar gyfer y perfformwyr gorau.

192. Nododd yr adroddiad y tueddiadau a ganlyn ymhlith y ffermydd sy'n perfformio orau, gan ddweud ei bod yn anodd eu rancio oherwydd bod eu heffeithiau yn amrywio o fferm i fferm yn unol â systemau ffermio, personoliaeth ac agwedd y ffermwr, y lefelau rheoli fferm sy'n bodoli ar hyn o bryd, a chostau staffio a rheoli.

I gael syniad cyffredinol o'r hyn sy'n bwysig, mae'r adroddiad yn rhestru'r canlynol mewn trefn:

- Lleihau gorbenion
- Pennu nodau a chyllidebau
- Cymharu ag eraill a chasglu gwybodaeth
- Deall y farchnad
- Canolbwyntio ar bob manylyn
- Bod yn barod i newid ac i fod yn arloesol
- Gwella'n barhaus y dull o reoli pobl
- Arbenigo.

3.8 Asedau, rhwymedigaethau a gwerth net

193. Mae ystyried asedau, rhwymedigaethau a gwerth net fferm yn rhoi syniad o gryfder ariannol y busnes, a'i allu posibl i ymateb i newidiadau.

194. Mae modd benthyg yn erbyn asedau busnesau fferm a helpu fferm i ymdopi ag incwm isel.

195. Mae tabl 3.16 yn dangos ar gyfartaledd amcangyfrif o asedau, rhwymedigaethau a gwerth net yn ôl maint fferm ar gyfer ffermydd a gymerodd ran yn yr Arolwg o Fusnesau Ffermio yn 2017-18

196. Mae gwerth net yn cynyddu yn ôl maint economaidd fferm, fel y mae lefel y dyledion, ac mae hynny'n adlewyrchu'r gallu i fenthyg mwy o arian.

Tabl 3.16: Asedau, rhwymedigaethau a gwerth net yn ôl maint fferm, Cymru 2017-18 (£)

	Asedau – tir ac adeiladau	Asedau – rhai sefydlog eraill	Asedau – presennol	Rhwymedigaethau – sefydlog	Rhwymedigaethau – presennol	Gwerth net
Yn ôl maint						
Amser sbar a rhan amser	624,800	78,000	50,300	-26,500	-10,200	716,500
Bach	605,300	106,300	56,900	-32,600	-15,100	720,800
Canolig	944,700	174,700	70,900	-46,100	-26,600	1,117,600
Mawr	1,018,200	234,300	103,400	-85,600	-30,200	1,240,200
Mawr iawn	1,815,800	467,600	162,900	-322,900	-101,100	2,022,200
Pob maint	937,400	194,500	83,900	-88,800	-32,400	1,094,600

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwsolwyd o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

Pennod 4: Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru

Cyflwyniad

197. Mae'r bennod hon yn ystyried Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth am strwythur y cynllun a sut y mae'r taliadau yn cael eu gwneud. Mae'n ystyried incymau fferm gydag incwm BPS a hebdo a thystiolaeth sy'n ymwneud ag elfen wyrddu'r cynllun.

4.1 Cefndir

198. Diwygiwyd Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE yn 2006/7 er mwyn symud i ffwrdd o gymorthdaliadau a oedd yn seiliedig ar gynhyrchiant i Gynllun y Taliad Sengl (SPS). Roedd SPS yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd o'r swm a roddwyd yn flaenorol i hawlwr mewn cymorthdaliadau sy'n seiliedig ar gynhyrchiant dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Ym mis Ionawr 2015, gwnaeth Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) ddisodli SPS.

199. Yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gweithredu taliad BPS safonol erbyn 2019, ynghyd â thaliad ailddosbarthu ar gyfer 54 hectar cyntaf pob hawliad.

200. Mae taliadau ailddosbarthu yn rhoi cymorth ariannol ychwanegol i ffermwyr ar gyfer 54 hectar cyntaf fferm yr hawlydd. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cynllun hwn o 2015 ymlaen i drosglwyddo'n ddiraffferth i'r taliadau sylfaenol ac i roi cymorth ariannol ychwanegol i ffermwyr sydd â ffermydd (ac incymau) llai. Mae mwy o wybodaeth am yr elfen hon o'r BPS yn adran 4.7 isod.

201. Roedd y BPS newydd hefyd:

- yn cyflwyno'r rheol 'ffermwr actif'
- yn cynyddu maint lleiaf yr hawliad o 0.3ha i 5ha
- yn trosglwyddo o daliadau sy'n seiliedig ar hawliau hanesyddol i gyfradd safonol a roddir fesul hectar o dir
- yn cyflwyno taliadau ailddosbarthu i drosglwyddo'n ddiraffferth i daliadau ar gyfradd safonol
- yn trosglwyddo 15% o gyllideb Piler 1 (BPS) i Biler 2 (Cynlluniau amaeth-amgylcheddol)
- yn cyflwyno rheolau gwyrddu.

4.2 Cyfanswm yr hawlwr a maint cyllideb BPS

202. Mae taliadau BPS yn cael eu gwneud yn barhaus felly mae nifer yr hawlwr yn 2016, tua 15,500, yn adlewyrchu nifer yr hawlwr a dalwyd ar y dyddiad y cafwyd y data.

203. Gostyngodd nifer yr hawlwr BPS/SPS rywfaint rhwng 2010 a 2014.

204. Gostyngodd nifer yr hawlwr yn 2015 yn dilyn cyflwyno'r rheol 'ffermwr actif'. Dan y rheol hon, roedd yn ofynnol i hawlwr ymgymryd â 'gweithgarwch amaethyddol' ar y tir yr oeddent yn hawlio cymorth ar ei gyfer.

Tabl 4.1: Nifer yr hawlwyd a'r cyfanswm a dalwyd drwy SPS a BPS yng Nghymru

Blwyddyn	Nifer yr hawlwyd	Swm a dalwyd (£ miliwn)
Cynllun y Taliad Sengl:		
2010	16,584	267.8
2011	16,501	267.7
2012	16,456	246.3
2013	16,403	251.4
2014	16,125	208.4
Cynllun y Taliad Sylfaenol:		
2015	15,500	190.0
2016	15,445	224.0

Ffynhonnell: Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016

205. Roedd y cyfanswm a dalwyd wedi gostwng rhwng 2010 a 2015, yn enwedig yn 2014 pan oedd y bunt yn gryf o gymharu â'r ewro³⁵. Er bod gwerth y cronfeydd a neilltuwyd mewn ewro i Gymru wedi parhau'n gyson ers 2014, mae'r cyfanswm mewn punnoedd wedi amrywio rhyw £77 miliwn oherwydd yr amrywiad yn y gyfradd gyfnewid.

206. Mae'r gyfradd gyfnewid hefyd yn dylanwadu ar y swm a delir fesul hectar. Yn ymarferol, mae hyn hefyd yn golygu bod symiau hawliadau yn amrywio bob blwyddyn. Pan fo'r bunt yn wan, mae taliadau BPS yn cynyddu. Pan fo'r bunt yn gryf, mae'r taliadau yn gostwng.

207. Mae taliadau BPS hefyd wedi amrywio yn sgil diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol, yn enwedig yn 2014. Roedd diwygiadau 2014-2020 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau drosglwyddo i daliadau ar gyfradd safonol fesul hectar erbyn 2019, a chyfanswm cyllideb yr UE ar gyfer y cyfnod oedd 3.5% yn llai mewn termau real nag oedd yn 2007-2013. Ar gyfartaledd, dyrannwyd 6.9% yn llai i bob Aelod-wladwriaeth yn 2014-2020 na'r cyfartaledd ar gyfer 2007-2013. Dyma oedd y tro cyntaf i'r UE ostwng cyfanswm cyllideb y Polisi Amaethyddol Cyffredinol.

Tabl 4.2: Cyfradd gyfnewid EURO-GBP a bennir gan yr UE ar gyfer SPS a BPS

	Cyfradd gyfnewid EURO-GBP
2018	€1 = £0.8928
2017	€1 = £0.8947
2016	€1 = £0.8523
2015	€1 = £0.7313
2014	€1 = £0.7773

Ffynhonnell: Defra

³⁵ Mae cyfanswm y pecyn taliadau wedi'i bennu mewn ewro ac yna ei drosi i bunnoedd i'w dalu i Gymru. Y gyfradd gyfnewid a ddefnyddir ar gyfer hyn yw cyfartaledd cyfradd gyfnewid EURO-GBP Banc Canolog Ewrop ym mis Medi. Cyn cyflwyno'r BPS, pennwyd y gyfradd gyfnewid gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid Banc Canolog Ewrop fel ydoedd ar 30 Medi y flwyddyn honno.

4.3 Dosbarthu BPS

208. Mae Ffigur 4.1 yn dangos dosbarthiad cronuss hawlwr a thaliadau BPS yn 2017. Mae'n rhoi syniad inni ynghylch sut y mae taliadau wedi'u gwasgaru ymhlith derbynwyr.

209. Mae Tabl 4.3 yn dangos dosbarthiad y taliadau yn 2017 ar sail y swm a dalwyd.

210. Mae dosbarthiad taliadau BPS ymhlith hawlwr wedi'u sgiwio. Roedd 47% o hawlwr wedi cael llai na £10,000 yr un yn 2017. Roedd hyn yn cynrychioli 15% o'r holl daliadau a wnaed.


211. Roedd 38% o hawlwr BPS wedi cael rhwng £10,000 a £25,000. Roedd hyn yn cynrychioli 41% o'r holl daliadau a wnaed.

212. Gyda'i gilydd, roedd 84% o hawlwr wedi cael llai na £25,000 ac roedd hynny yn 56% o'r taliadau a wnaed.

213. Mae llai o hawlwr yn cael £25,000 neu fwy ond mae'r hawlwr hyn yn cael cyfran uwch o gyfanswm y taliadau. Talwyd rhwng £25,000 a £50,000 i 12% o hawlwr ac roedd hynny'n 28% o gyfanswm taliadau BPS.

214. Talwyd mwy na £50,000 yr un i 3% o hawlwr. Roedd hyn yn 16% o'r holl daliadau a wnaed.

Ffigur 4.1:
Dosbarthiad
taliadau BPS yng
Nghymru,
2017 (%)^(a)



(a) Nid yw'r holl ddata RPW a ddarperir yma yn cynnwys ffermydd ar y ffin (ffermydd yn Lloegr a delir gan Gymru a ffermydd yng Nghymru a delir gan Lloegr).

Ffynhonnell: Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer blwyddyn dalu 2017

Tabl 4.3: Dosbarthiad taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ôl lefel y taliad ar fferm, 2017

£'000 Taliad ar fferm	Gwerthoedd		Cyfran y cyfanswm	
	Hawlwr	£ miliwn	Hawlwr	£ miliwn
Dan 2.5	1,870	3.1	12.4%	1.4%
2.5 i 5	2,068	7.6	13.7%	3.4%
5 i 10	3,051	22.5	20.3%	10.0%
10 i 15	2,698	33.5	17.9%	15.0%
15 i 20	1,819	31.5	12.1%	14.1%
20 i 25	1,197	26.7	8.0%	12.0%
25 i 50	1,870	62.7	12.4%	28.1%
50 i 100	411	27.0	2.7%	12.1%
100 i 400	62	8.6	0.4%	3.9%
Cyfanswm	15,046	223.2	100.0%	100.0%


Ffynhonnell: Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer blwyddyn dalu 2017

4.4 Dosbarthiad BPS a thir ar fferm

215. Mae BPS yng Nghymru yn trosglwyddo ar hyn o bryd i daliadau ar gyfradd safonol. Disgwylir i'r broses hon ddod i ben yn 2019 pan fydd pob fferm yn cael yr un gyfradd BPS fesul hecтар.

216. Mae talu fesul hecтар yn golygu bod ffermydd sydd ag arwynebedd amaethyddol fawr yn cael mwy o gymorth. Mae hyn i'w weld yn Ffigur 4.2. Mae ffermydd sydd â mwy na 200ha neu fwy o dir yn cael £38,558 ar gyfartaledd tra bo ffermydd sydd â llai na 25ha yn cael £8,237 ar gyfartaledd.

**Ffigur 4.2:
Cyfartaledd
symiau
hawliadau BPS yn
ôl tir ar fferm yng
Nghymru, 2017**



Ffynhonnell: Arolwg Amaethyddol Cymru a RPW ar gyfer blwyddyn dalu 2017


4.5 Dosbarthiad BPS yn ôl allbwn safonol

217. Mae Ffigur 4.3 yn dangos rhaniad o ran poblogaeth sy'n deillio o Arolwg Amaethyddol Cymru yn ôl lefel yr allbwn safonol³⁶ a chyfartaledd arwynebedd fferm.

218. Mae allbwn safonol yn fesuriad o faint economaidd fferm mewn ewro. Mae'n ystyried allbwn o amaethyddiaeth.


219. Hefyd, y ffermydd sydd â'r arwynebedd mwyaf sy'n dueddol o fod y ffermydd sy'n cyfrannu'n fawr at yr economi. Mae cyfartaledd maint y tir ar fferm yn cynyddu yn ôl allbwn safonol. Roedd gan ffermydd ag allbwn safonol o fwy na €500,000 gyfartaledd arwynebedd fferm o 258ha yn 2017. Mae hyn yn cyferbynnu â ffermydd sydd ag allbwn safonol o lai na €10,000. Cyfartaledd arwynebedd tir y ffermydd hyn oedd 9ha.

Ffigur 4.3:
Cyfartaledd arwynebedd fferm yn ôl allbwn safonol yng Nghymru, 2016-17



Ffynhonnell: Data Arolwg Amaethyddol Cymru a thaliadau RPW

Ffigur 4.4:
Cyfartaledd taliadau BPS yn ôl band allbwn safonol yng Nghymru, 2016-17



Ffynhonnell: Data Arolwg Amaethyddol Cymru a thaliadau RPW

³⁶ Mae allbwn safonol yn fesuriad o faint economaidd fferm. Caiff y gwerth ei gyfrifo mewn Ewro ar sail yr allbwn safonol fesul pen da byw neu hectar o dir. Mae'n disgrifio gwerth cyfartalog allbwn amaethyddol ar bris wrth gât y fferm. Mae ffermydd sy'n cyfrannu'n fawr at yr economi yn creu mwy o allbwn ac felly mae gwerth eu hallbwn safonol yn uwch.

220. Mae Ffigur 4.4 yn dangos ffigurau mis Mehefin Arolwg Amaethyddol Cymru o ran rhaniad y boblogaeth yn ôl band allbwn safonol a chyfartaledd hawliadau BPS.

221. Roedd ffermydd yn y band allbwn safonol mwyaf wedi cael ar gyfartaledd £41,163 o daliad BPS yn 2016-17 tra bo ffermydd ag allbwn safonol llai na €10,000 wedi cael ar gyfartaledd £4,084 mewn taliadau. Y rheswm am hynny yw bod ffermydd economaidd mawr yn dueddol o fod ag arwynebedd mwy o faint, fel y dengys Ffigur 4.3, ac mae hynny'n arwain at daliadau uwch ar sail y gyfradd BPS fesul hectar.

4.6 Cyfartaledd BPS yn ôl categori fferm

Tabl 4.4: Swm cyfartalog y Taliad Sylfaenol yng Nghymru yn ôl categori fferm, 2017

Categori fferm	Cyfartaledd taliadau	Cyfran yr hawlwyd (%)	Cyfran y taliadau (%)
Pob Hawlydd	£14,110	100%	100%
Micro-ffermydd defaid/cig eidion ^(b)	£5,600	23%	9%
Micro-ffermydd eraill ^(b)	£4,700	5%	2%
Ffermydd defaid/cig eidion bach – Ardal dan Anfantais Fawr (SDA) ^(c)	£21,600	25%	37%
Ffermydd defaid/cig eidion bach – Ardal dan Anfantais (DA) ^(c)	£15,300	10%	11%
Ffermydd bach llawr gwlad – defaid/cig eidion ^(c)	£14,500	6%	6%
Ffermydd bach – eraill ^(c)	£14,400	7%	7%
Ffermydd mawr – godro ^(d)	£26,100	6%	10%
Ffermydd mawr – defaid/ cig eidion ^(d)	£59,300	2%	8%
Ffermydd mawr – eraill ^(d)	£31,900	1%	2%
Anhysbys ^(a)	£7,000	16%	9%

Noder: (a) Anhysbys = ffermydd nad ydynt yn rhan o boblogaeth yr arolwg. Caiff ffermydd eu categoreiddio yn ôl eu prif weithgarwch a maint economaidd.

(b) Micro-ffermydd = Allbwn Safonol dan €25,000.

(c) Bach = Allbwn Safonol rhwng €25,000 a €250,000.

(d) Mawr = Allbwn Safonol o leiaf €250,000.

Ffynhonnell: Ffynhonnell: Data taliadau Arolwg Amaethyddol Cymru a RPW

222. Mae Tabl 4.4 yn dangos unwaith eto bod ffermydd sy'n cyfrannu'n fawr at yr economi wedi cael cyfartaledd uwch o daliadau BPS yn 2017, a bod y gwahaniaeth hwn yn dal i fodoli yn ôl categori fferm.

223. O'r holl gategorïau, roedd y gwahaniaeth mwyaf yn bodoli ymhlith micro-ffermydd defaid/cig eidion rhwng cyfran yr hawlwyd a chyfran y taliadau. Mae hyn yn adlewyrchu bod ffermydd yng Nghymru yn dueddol o fod yn fach o ran nifer yr hectarau sy'n cael eu ffermio ac felly byddant yn cael taliadau is dan gyfradd y BPS sy'n seiliedig ar arwynebedd.

4.7 Taliadau aiddosbarthu

224. Mae 50% o ddaliadau fferm yng Nghymru yn 25 hectar neu lai. Mae gan y ffermydd hyn, ar gyfartaledd, allbwn safonol o €28,652.

225. Wrth ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn 2013, rhoddwyd yr opsiwn i Aelod-wladwriaethau weithredu taliad aiddosbarthu rhwng 2015-2020. Roedd hyn wedi caniatáu taliad ychwanegol ar gyfer yr hectarau cyntaf ac felly darparwyd ffordd o allu helpu ffermydd bach yn ariannol.

226. Mae naw Aelod-wladwriaeth a rhanbarth wedi mabwysiadu'r dull hwn, ac mae Cymru wedi bod yn un ohonynt ers 2015. Caiff y cynllun hwn ei ariannu drwy dynnu o brif gronfa BPS, a gosod cap ar ffurf canran ar unrhyw daliadau sy'n fwy na €150,000.

227. Roedd Aelod-wladwriaethau yn gallu penderfynu pa drothwy y byddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer taliadau aiddosbarthu, a chyfradd y taliad a fyddai'n gymwys ar gyfer yr hectarau cyntaf.

228. Penderfynodd Llywodraeth Cymru weithredu'r trothwy uchaf posibl sef 54ha er mwyn helpu'r 63% o fermwyr yng Nghymru sydd â ffermydd 50ha neu lai.

229. Mae hyn wedi gwneud cryn dipyn i fynd i'r afael â phwyslais BPS ar helpu'r ffermydd cynhyrchiol mawr ond mae ffermydd bach yn dal i gael taliadau llai ar gyfartaledd.

4.8 Proffidioldeb a BPS

4.8.1 Cyfartaledd incwm yn ôl maint fferm a heb BPS

230. Mae Tabl 4.5 yn dangos y boblogaeth o ffermydd FBS a gafodd eu categorio yn ôl allbwn y fferm gyfan. Mae hyn yn adlewyrchu holl referniw'r fferm (amaethyddiaeth, arallgyfeirio, BPS, cynlluniau amaeth-amgylcheddol).

231. Mae incwm BPS wedi'i dynnu o gyfartaledd incwm fferm ar gyfer pob maint fferm i roi amcangyfrif o effaith newidiadau i incymau fferm.

232. Mae'r tabl yn dangos ar gyfartaledd y byddai ffermydd sydd ag allbwn fferm gyfan sy'n llai na £100,000 wedi cael incwm fferm negyddol heb BPS yn 2016-17.

233. Nid yw'r cyfartaleddau hyn yn adlewyrchu lefel uchel yr amrywiad o fewn categorïau fferm a rhyngddynt.


Tabl 4.5: Cyfartaledd Incwm Busnesau Fferm yn 2016-17 yn ôl maint fferm: gyda BPS a hebdo

Allbwn fferm gyfan	Nifer y ffermydd	Incwm heb BPS	Incwm gyda BPS
Cyfanswm Cymru	9,629	£5,146	£24,501
Dan £50,000	1,983	-£7,626	£1,210
£50,000 i £100,000	3,021	-£1,025	£13,665
£100,000 i £250,000	3,277	£7,002	£30,234
O leiaf £250,000	1,348	£33,257	£69,118

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth a ailbwsolwyd o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio

4.8.2 Ffermydd sydd wedi gwneud elw heb BPS

Ffigur 4.5:
Cyfran y
ffermydd sy'n
gwneud elw o
incwm fferm
gyfan,
2017-18 (%)



Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Ffermio

234. Mae Ffigurau 4.5 a 4.6 yn dangos poblogaeth ffermydd FBS sydd wedi'u categorio yn ôl eu prif weithgarwch a'u maint economaidd. Caiff maint economaidd ei gyfrifo yn ôl lefel yr allbwn amaethyddol (refeniw mewn £). Caiff busnesau fferm sydd ag allbwn amaethyddol o £150,000 neu fwy eu galw yn rhai mawr a gelwir ffermydd sydd ag allbwn is yn rhai bach. Pan fo gweithgarwch amaethyddol penodol yn gyfrifol am o leiaf dwy ran o dair o allbwn safonol fferm, dyma yw'r prif weithgarwch.


235. Yn 2017-18, gwnaeth 74% o ffermydd FBS yng Nghymru elw sylweddol o'u busnes fferm gyfan h.y. mwy na £110 mewn allbwn am bob £100 o gostau.

236. Roedd 26% o ddaliadau fferm heb ennill na cholli, neu roedd eu busnes fferm gyfan wedi gwneud colled. Roedd hyn yn golygu am bob £100 o allbwn, roedd y ffermydd hyn yn gorfod gwario £90 neu fwy i dalu costau.

237. Roedd y gyfran uchaf o ffermydd na wnaeth elw sylweddol (38% o ffermydd) yn perthyn i'r grŵp ffermydd bach defaid/cig eidion yn yr Ardal dan Anfantais.

238. Roedd gan ffermydd mawr, rhai godro ac eraill, y gyfran fwyaf a oedd yn gwneud elw sylweddol o incwm fferm gyfan.

Ffigur 4.6:
Cyfran y ffermydd sy'n gwneud elw heb incwm BPS, 2017-18 (%)



Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Ffermio

239. Heb BPS, mae cyfran yr holl ffermydd FBS oedd wedi gwneud colled/heb ennill na cholli yn codi i 59%. Cyfran y ffermydd a wnaeth elw heb BPS oedd 41% yn 2017-18.

240. Ffermydd bach defaid yn yr Ardal dan Anfantais Fawr yw'r ffermydd sy'n dueddol o ddibynnu fwyaf ar BPS. Er nad yw 16% o'r ffermydd hyn yn gwneud elw sylweddol wrth ystyried pob ffynhonnell incwm, mae hynny'n codi i 74% pan fo incwm BPS yn cael ei dynnu.

241. Hefyd, ffermydd defaid/cig eidion yn yr Ardal dan Anfantais Fawr yw'r math o fferm sy'n cael y gyfran uchaf o daliadau BPS (37%).

242. Nid yw'r cyfartaleddau hyn yn dangos yr amrywiad mawr rhwng ffermydd unigol. Mae busnesau fferm ym mhob grŵp sydd ag incwm fferm gadarnhaol heb BPS.

4.9 BPS, prisiau tir a rhenti

243. Mae prisiau tir amaethyddol, gan gynnwys prisiau rhent, yn dibynnu ar y cyflenwad a'r galw, a ffactorau dylanwadol eraill. Mae cydbwysedd gwahanol y ffactorau hyn (sy'n adlewyrchu rhyw elfen o amodau lleol a phriodoleddau tir) yn arwain

at amrywiad gofodol mewn prisiau. Dim ond ychydig iawn o dir amaethyddol sy'n dueddol o newid perchenogaeth bob blwyddyn - mae Defra yn awgrymu ffigur o ryw 0.25% o'r arwynebedd amaethyddol y gellir ei defnyddio yng Nghymru a Lloegr yn 2016. Mae'r arwynebedd bach hwn yn ogystal â galw cynyddol yn dueddol o godi prisiau.

244. Mae tystiolaeth economaidd yn awgrymu bod taliadau uniongyrchol yn debygol o fod wedi cyfrannu at brisiau tir a rhent uwch. O ystyried bod taliadau uniongyrchol yn cynyddu'r posibilrwydd o enillion ariannol drwy fod yn berchen ar dir amaethyddol (drwy fedru hawlio cymorthdaliadau cyhoeddus), mae hynny'n cynyddu'r galw am dir o'r fath. Mae hynny, felly, yn arwain at brisiau uwch am dir amaethyddol a pherchnogion tir yn codi rhenti uwch ar denantiaid.

245. O ganlyniad, caiff ychydig o werth y taliadau uniongyrchol a wneir i ffermwyr eu cronni'n anuniongyrchol fel incwm i berchnogion tir drwy rent cynyddol, gyda ffermydd sy'n defnyddio tir rhent yn wynebu costau uwch (yn enwedig ffermydd cyfan dan ofal tenant). Mae effeithiau taliadau uniongyrchol ar renti tir yn debygol o amrywio ar draws ffermydd gan

ddibynnu ar eu priodoeddau penodol. Ffermwyr sy'n berchen ar y fferm sy'n elwa ar daliadau uniongyrchol a gwerthoedd tir cynyddol (fel asedau).

246. Mae prisiau uwch ar gyfer tir amaethyddol i'w rentu a'i brynu yn codi costau ar gyfer ffermwyr newydd sy'n cychwyn arni ac ar gyfer y rheini sydd am ehangu eu busnesau. Mae'r cyfyngiadau hyn yn atal mwy o ffermwyr arloesol neu gynhyrchiol rhag achub ar gyfleoedd newydd, ac yn arwain at oblygiadau ehangach sy'n gallu effeithio'n negyddol ar berfformiad amaethyddol.

4.10 BPS a gwyrddu

247. Mae mesurau gwyrddu ynghlwm wrth BPS a chawsant eu gweithredu mewn aelod-wladwriaethau am y tro cyntaf yn 2015. Fe'u lluniwyd i sicrhau bod ffermwyr yn ymgymryd ag arferion amaethyddol er lles yr hinsawdd a'r amgylchedd. Nid yw gwyrddu yn ddewisol i ffermwyr – nid oes modd gwrthod y taliad gwyrddu a pharhau i gael gweddill taliad BPS.

248. Yng Nghymru, caiff y taliad gwyrddu ei ariannu drwy frigidorri 30% o gyllideb Taliadau Uniongyrchol Cymru (Piler 1). Mae elfennau allweddol y taliadau gwyrddu yng Nghymru fel a ganlyn:

- Gwneir taliadau gwyrddu gan ddefnyddio canran o gyfanswm gwerth taliad BPS ffermwr unigol. Caiff y canran hwnnw ei gyfrifo bob blwyddyn drwy rannu'r gyllideb wyrddu â chyfanswm gwerth yr holl hawliau BPS sy'n cael eu defnyddio.
- Mae tair elfen i'r arferion gwyrddu:
 - Glaswelltir parhaol
 - Tyfu amrywiaeth o gnydau
 - Ardaloedd â Ffocws Ecolegol (Rhaid i ffermwyr sydd â mwy na 15ha o dir â sicrhau bod o leiaf 5% ohono yn dir â ffocws ecolegol).
- Mae gwyrddu yn gymwys i'r holl dir amaethyddol cymwys, hyd yn oed os nad yw'r tir yn destun hawliau am daliadau BPS.

249. Roedd Llys Archwilwyr Ewrop (2017) wedi archwilio dyluniad y mesurau gwyrddu a'u gweithrediad yn ystod y ddwy flynedd gyntaf (2015 a 2016). Nid oedd yr archwiliad yn seiliedig ar un Aelod-wladwriaeth ond yn hytrach roedd yn archwiliad eang a gynhaliwyd ar draws yr UE a oedd yn cynnwys edrych ar gysondeb rhwng gwyrddu a mesurau amgylcheddol eraill y Polisi Amaethyddol Cyffredin, h.y. trawsgydymffurfio a mesurau amgylcheddol datblygu gwledig. Roedd hefyd yn cynnwys adolygiad desg a oedd yn hoelio sylw ar y risg o gyllido dwbl mewn 10 Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys y DU (Cymru).

250. Yn gyffredinol, daeth y Llys i'r casgliad:

- bod gwyrddu, fel y caiff ei weithredu ar hyn o bryd, yn annhebygol o wella'n sylweddol berfformiad y Polisi Amaethyddol Cyffredin o ran gwella'r amgylchedd a'r hinsawdd.
- nad yw cynnwys amgylcheddol y polisi yn cyfiawnhau sut y mae'r gyllideb yn cael ei dyrannu, a bod y taliad gwyrdd yn parhau, yn ei hanfod, yn gynllun cymhorthdal incwm
- nad yw gwyrddu yn debygol o ddarparu manteision sylweddol i'r amgylchedd a'r hinsawdd oherwydd diffrwythedd sylweddol sy'n effeithio ar y polisi. Yn benodol, amcangyfrifir mai dim ond ar 5% o holl dir ffermio'r UE y mae mesurau gwyrddu wedi arwain at newidiadau i arferion ffermio.

251. Daeth Llys yr Archwilwyr i'r casgliad hefyd nad yw gwyrddu, fel y caiff ei weithredu ar hyn o bryd, yn debygol o fod o fudd sylweddol i'r amgylchedd a'r hinsawdd. Nodwyd yn ystadegau 2016 y Comisiwn bod 77% o dir ffermio yn berchen i ddaliadau fferm dan o leiaf un rhwymedigaeth wyrddu. O edrych ar sampl o 145 o ddaliadau fferm, darganfuwyd yn y mwyafrif o achosion nad oedd angen i ffermwyr newid eu harferion ffermio yn sgil cyflwyno'r mesurau gwyrddu. Roedd hynny oherwydd bod y daliadau dan sylw eisoes yn bodloni'r gofynion gwyrddu yn 2014 neu oherwydd roeddent wedi'u hesemptio.

252. Fodd bynnag, nododd yr Archwilwyr dystiolaeth a gymerwyd o'u Hadroddiad Blynyddol o rai newidiadau cadarnhaol i arferion ffermio yn dilyn cyflwyno'r cynllun, yn enwedig o ran Ardaloedd â Ffocws Ecolegol. O ran y daliadau hynny lle gwnaeth y cynllun gwyrddu arwain at newidiadau cadarnhaol, amcangyfrifwyd bod 15% o'r tir â'r lle gwelwyd newidiadau o'r fath wedi'i ddefnyddio i dyfu amrywiaeth o gnydau a thua 4% fel Ardaloedd â Ffocws Ecolegol. Gan ystyried y daliadau lle nad oedd angen newid yr arferion ffermio, yn ogystal â'r ffaith mai tir â'r yw tua 60% o holl dir ffermio'r UE, mae hynny'n golygu yr oedd angen tyfu mwy o amrywiaeth o gnydau ar ryw 1% o dir ffermio'r UE, ac roedd angen cyflwyno Ardaloedd â Ffocws Ecolegol ar 1% yn dilyn cyflwyno'r cynllun gwyrddu. Maent hefyd yn nodi bod Ardaloedd â Ffocws Ecolegol yn gallu sicrhau manteision y tu hwnt i'w ffiniau (ee gall blodau gwyllt ar lain glustogî ddarparu cynefin ar gyfer peillwyr, a allai ledaenu dros y parseli tir cyffiniol).

253. Gwnaeth Llys yr Archwilwyr drafod y mater o ddiffwythedd³⁷ sy'n cael ei ddisgrifio yn 'arwyddocaol' oherwydd:

- symrlwydd y gofynion gwyrddu, sydd ar y cyfan yn adlewyrchu arferion ffermio da
- nifer y ffermydd sydd wedi'u hesemptio rhag y gofynion gwyrddu
- pryder bod mesurau gwyrddu a thrawsgydymffurfio yn gorgyffwrdd – sy'n golygu bod nodweddion neu arferion penodol sy'n cael eu diogelu neu sy'n ofynnol dan GAEC³⁸ neu SMR³⁹ yn gallu (ar yr un pryd) cael eu datgan i fodloni gofynion Ardal â Ffocws Ecolegol.

254. O ran bioamrywiaeth, nododd Llys yr Archwilwyr fod y pwyslais a roddir ar greu Ardaloedd cynhyrchiol â Ffocws Ecolegol ynghyd â gofynion rheoli annigonol yn lleihau manteision gwyrddu ar gyfer bioamrywiaeth.

³⁷ Sefyllfa lle y byddai gweithgarwch neu brosiect â chymhorthdal wedi'i wneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol heb gymorth cyhoeddus.

³⁸ Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da. Term ar gyfer set o safonau sylfaenol sy'n gymwys dan ofynion trawsgydymffurfio, sy'n diffinio cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da y tir.

³⁹ Gofynion Rheoli Statudol. Term ar gyfer set o rwymedigaethau a ddiffinnir yn neddfwriaeth priodol yr UE ar yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd, iechyd cyhoeddus, anifeiliaid a phlanhigion, a lles anifeiliaid, ac sy'n gymwys dan ofynion trawsgydymffurfio.

Pennod 5: Masnach

Cyflwyniad

255. Mae'r Bennod hon yn edrych yn fanylach ar y fasnach yn y prif nwyddau amaethyddol (cig eidion, defaid a llaeth) ar lefel y DU a Chymru. Rydym wedi dewis y tri sector hyn oherwydd bod Tabl 1.1. (ym Mhennod 1) yn dangos eu bod, gyda'i gilydd, wedi cyfrannu at 74% o allbwn amaethyddol Cymru yn 2017⁴⁰.

256. Mae deall y ffrydiau masnach hyn yn bwysig, gan fod y DU yn bwriadu ymadael â'r UE yn 2019. Yn y bennod hon, nid ydym yn rhagweld yr effeithiau ar y fasnach hon dan senarios Brexit gwahanol. Cewch ragor o fanylion ar y senarios hynny yn yr adroddiad gan yr Is-weithgor a sefydlwyd gan Grŵp Bord Gron Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i edrych ar Dystiolaeth a Senarios,

“Crynodeb o Weithdai Cynllunio Senarios Ymadael â'r UE”. Maent hefyd wedi'u crynhoi yn yr ymgynghoriad “Brexit a'n Tir”.

5.1 Cig Eidion

257. Roedd y DU wedi defnyddio dros 1.2 miliwn o dunelli o gig eidion a chig llo ffres/wedi'u rhewi ac wedi'u prosesu yn 2017. Roedd 37% o'r cig hwn wedi'i fewnforio a chynhyrchwyd 63% ohono yn y DU. Yn 2009-2017, gwelwyd 6.5% o gynnydd yng nghyfanswm treuliant y DU o ran cig eidion a chig llo ffres/wedi'u rhewi a'u prosesu, gyda bron 10% yn fwy o'r cig hwn yn cael ei allforio yn yr un cyfnod. Gwelwyd cynnydd o 8% mewn cynhyrchiant yn y DU, a 33% mewn allforion.

Tabl 5.1: Mantolen cig eidion a chig llo, y DU, 2009-2017, '000 o dunelli

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Cynhyrchiant	833	909	936	885	847	877	885	912	902
Mewnforion ^(a)	404	397	384	406	393	414	431	426	443
Allforion ^(b)	105	137	174	148	132	142	132	143	140
Cyfanswm	1,10	1,169	1,147	1,144	1,108	1,149	1,183	1,150	1,204

(a) Mae mewnforion yn cynnwys cig eidion ffres/wedi'i rewi a chig eidion wedi'i brosesu

(b) Mae allforion yn cynnwys cig sydd wedi'i brosesu

Ffynhonnell: AHDB (ffigurau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf)

258. Yn 2017, mewnforiodd y DU ychydig dros 340,000 o dunelli o gig eidion a chig llo ffres/wedi'u rhewi (a 102,000 o dunelli o gig eidion a chig llo wedi'u prosesu). Daeth 70% o'r cig hwn o lwerddon, ac 8% o'r Iseldiroedd. Mae 90% o'r cig eidion sy'n cael ei fewnforio i'r DU yn dod o lwerddon a gweddill yr UE. Nid oes yr un wlad o'r tu allan i'r DU yn cyflenwi mwy na 3% o'r cyfanswm.


259. O ran allforion, allforiodd y DU ychydig dros 105,000 o dunelli o gig eidion a chig llo ffres/wedi'u rhewi yn 2017 (a 35,000 o dunelli o gig wedi'i brosesu), oedd werth £410 miliwn i economi'r DU. Roedd 33% o'r allforion hyn wedi mynd i lwerddon, 23% i'r Iseldiroedd, ac 8% i Ffrainc. Aeth cyfanswm o 90% o allforion cig eidion y DU i wledydd eraill yn yr UE.

⁴⁰ Y ffigurau a ragwelir

260. Yng Nghymru, mae gennym 167,828 o fuchod sugno ar 7,435 o ddaliadau yng Nghymru. Ar ben hynny, mae 520,000 o wartheg eidion eraill ar ffermydd Cymru, yn anifeiliaid o fuchesi sugno a godro sy'n cael eu pesgi. Nifer gymharol fach o ffermydd sydd gennym yng Nghymru sy'n cadw gwartheg eidion yn unig. Bydd gan ffermydd wartheg godro neu ddefaid hefyd. Mae gwartheg yng Nghymru yn gyfrifol am 26%⁴¹ o werth allbwn amaethyddol Cymru.

261. Dangosir y llif masnach mewn cig eidion o ffermydd Cymru yn Ffigur 5.1.

Ffigur 5.1: Y llif masnach mewn cig eidion o ffermydd Cymru



Ffynhonnell: AHDE

5.2 Wŷn

262. Mae'r galw am gig oen a dafad wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o 345,000 o dunelli yn 2009 i 300,000 o dunelli yn 2017. Gwelwyd gostyngiad o 42,000 o dunelli yn mewnforion cig oen yn ystod yr un cyfnod, a gostyngiad bach (5,000 o dunelli) mewn allforion o'r DU.

263. Mae'n bwysig nodi bod wŷn yn cael eu masnachu drwy'r flwyddyn (mewnforion ac allforion) ac mae allforion yn hanfodol gan eu bod yn lleihau natur dymhorol y cynnyrch a'r problemau

â chydbwysedd carcasau. Mae problemau â chydbwysedd carcasau yn codi oherwydd mai dros 40% o'r cig oen sy'n cael ei brynu ym Mhrydain⁴² yw darnau o goes i'w rhostio, ond dim ond 20% o'r carcas yw'r goes. Problem anghydbwysedd â'r carcas yw un o'r gofidiau mwyaf ynghylch colli marchnad yr UE gan fod yn well gan wledydd eraill y lwyn a'r ysgwydd, gan greu cydbwysedd â'r galw yn y DU.

264. O ran allforio cig oen, allforiodd y DU ychydig dros 94,000 o dunelli o gig dafad ffres/wedi'i rewi yn 2017, oedd werth £385 miliwn i economi'r DU.

⁴¹ Mae gwerth cynhyrchion llaeth yn elfen ar wahân i hyn.

⁴² Ffigurau 2016.

Roedd 45% o'r allforion hyn wedi mynd i Ffrainc, a 15% i'r Almaen. Mae 96% o allforion yn dal i fynd i 27 o wledydd yr UE (Ffrainc, yr Almaen, Iwerddon, Gwlad Belg a'r Eidal yw'r pwysicaf). Mae'r cyrchfannau allforio hyn yn caniatáu mynediad am ddim a didrafferth i farchnad fawr ac mae hynny'n cynyddu'r elw a wneir o'r farchnad.

265. Yn yr un flwyddyn, mewnforiodd y DU 94,000 o dunelli o gig dafad. Daeth 65% ohono o Seland Newydd, 14% o Awstralia, a 12% o Iwerddon. Mewnforir cig oen pan fo cig oen y DU ar ei brinnaf. Mae sicrhau bod cynnyrch o ansawdd ar gael 12 mis y flwyddyn yn bwysig i gadw teyrngarwch y defnyddiwr i gig oen.

Tabl 5.2: Mantolen cig oen a chig dafad, y DU, 2009-2017, '000 o dunelli

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Cynhyrchiant	307	277	289	276	290	298	302	290	299
Mewnforion ^(a)	137	121	104	100	116	108	110	109	95
Allforion	99	92	101	99	109	108	83	82	94
Cyfanswm	345	306	293	277	296	298	328	317	300


(a) Mae mewnforion yn cynnwys cig dafad ffres/wedi'i rewi a chig dafad wedi'i brosesu.

Ffynhonnell: AHDB (ffigureau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf)

266. Mae gan Gymru 4.65m o famogiaid bridio (28% o ddiadell fridio'r DU), a 4.89 miliwn o wŷn ar 14,023 o ddaliadau. Mae Cymru'n bwyta 5% o gynnyrch cig oen Cymru gyda gweddill y DU yn bwyta 55-60%. Mae rhwng 35-40% o gig oen Cymru'n cael ei allforio. Mae gan Gig Oen Cymru statws PGI ac mae'n frand cydnabyddedig ym marchnadoedd y DU a'r byd.

Mae gwerth yr allforion o Gymru wedi cynyddu'n sylweddol o £57 miliwn yn 2004 i £124 miliwn yn 2017. Mae 95% o'r cig dafad sy'n cael ei allforio yn mynd i'r UE. Mae'r gweddill yn mynd i'r dwyrain canol a'r dwyrain pell. Defaid sy'n gyfrifol am 17% o werth allbwn amaethyddol Cymru. Dangosir y llif masnach mewn cig oen o ffermydd Cymru yn Ffigur 5.2.

Ffigur 5.2: Y llif masnach mewn cig oen o ffermydd Cymru



Ffynhonnell: AHDB

5.3 Llaeth

267. Roedd 14.9 biliwn o litrau ym marchnad laeth y DU yn 2015, i fyny o 13.3 biliwn o litrau yn 2012. Cafodd 6.9 biliwn o litrau eu gwerthu fel llaeth yfed a 7.4 biliwn o litrau eu defnyddio i weithgynhyrchu.

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos sefydlogrwydd cymharol swm y llaeth a ddefnyddir yn y DU fel llaeth yfed yn y cyfnod 2012-2015 ond gwelwyd cynnydd yn y llaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithgynhyrchu.

Tabl 5.3: Llif Llaeth y DU 2012 – 2015, miliwn o litrau^(a)

	2012	2013	2014	2015
Cyfanswm y llaeth gwartheg a gynhyrchwyd i'w fwyta/yfed gan bobl	13,345	13,431	14,534	14,885
Mewnforion llaeth amrwd	129	132	139	185
Y cyfanswm ar gyfer ei fwyta/yfed gan bobl	13,474	13,563	14,673	16,069
Allforion llaeth amrwd	466	473	486	586
Ei anfon i hufenfeydd	12,861	12,952	14,055	14,352
I'w yfed fel llaeth	6,845	6,885	7,051	6,865
I'w weithgynhyrchu	6,089	6,223	7,018	7,419

(a) Ni fydd y cyfansymudiadau'n ymddangos yn gywir gan nad ydynt yn cynnwys categorïau mân y llaeth a fwydir i stoc ar ffermydd; llaeth a yfir ar ffermydd; llaeth a wastreffir a newidiadau yn lefelau'r stoc.

Ffynhonnell: AHDB

268. Mae'r DU yn fewnforiwr net o gynnyrch llaeth⁴³ ond mae allforion yn bwysig. Mae allforion yn werth £1.31 biliwn. Mae'r DU yn 'allforio' gwerth mwy na €1 biliwn o gynnyrch llaeth i wledydd eraill yr UE bob blwyddyn. Yr UE yw'r brif farchnad o bell ffordd ar gyfer cynnyrch llaeth o'r DU (72% o'r allforion). Mae marchnad y DU ar gyfer cynnyrch llaeth yn tyfu ryw 2% bob blwyddyn ac o gysylltu hyn â'r twf ym mhoblogaeth y byd a'r galw mewn marchnadoedd newydd sy'n tyfu'n fwyfwy ffyniannus, gallai sector y DU gyfnewid mewnforion a chynyddu'i hallforion.


269. Mae'r DU yn 75% hunan-gynhaliol mewn cynnyrch llaeth gan fewnforio caws a menyn ar y farchnad gynwyddau a hefyd cynnyrch wedi'i brosesu o'r ansawdd uchaf. Mae'r DU yn mewnforio gwerth £2.51 biliwn o gynnyrch llaeth. Mae bron iawn yr holl fewnforion yn dod o 27 gwlad yr UE (98%).

⁴³ Yn cynnwys llaeth wedi'i brosesu.

270. Mae'r sector llaeth yng Nghymru'n cynhyrchu 1.8 biliwn o litrau o laeth o 298,100 o fuchod godro ar 1,700 o ffermydd godro. Mae llaeth yn cyfrannu 31% at gyfanswm allbwn amaethyddol Cymru. Cafwyd llawer o ad-drefnu o fewn y sector yn yr 20 mlynedd diwethaf. Mae nifer y ffermydd godro wedi haneru ond mae'r fuches Gymreig wedi tyfu wrth i faint y fuches gyffredin ddyblu yn ei maint. Dangosir llif fasnach llaeth ffermydd Cymru yn Ffigur 5.3.

271. Mae'r capasiti prosesu llaeth yng Nghymru'n gyfyngedig; mae tua 50% o laeth Cymru'n cael ei allforio i Loegr a 50% yn cael ei brosesu yng Nghymru. Y rhan fwyaf ohono'n gaws.

Ffigur 5.3: Y llif masnach mewn llaeth o ffermydd Cymru



Ffynhonnell: AHDB

Cyfeiriadau

Pennod 1

Cyfrifiad y Boblogaeth (2011).

Defra (2018) Total factor productivity of the UK agriculture industry, second estimate for 2017.

Defra (2018) Agriculture in the United Kingdom, 2017.

Defra (2018) Aggregate farm accounts for England and the Regions, first estimate for 2017.

Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon (2018), Aggregate Agricultural Account 2018 onwards; The agricultural census in Northern Ireland, results for June 2018.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2016) Productivity in EU Agriculture.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2017) CAP context indicators 2014-2020 no. 27: Total factor productivity.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018) Regional gross value added (GVA) and sub-regional gross value added, 2017.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018) Workforce Jobs by Industry and Region.

Llywodraeth yr Alban (2018) Agriculture Facts and Figures, 2017.

Llywodraeth yr Alban (2018) Total Income from Farming Estimates for Scotland 2015-17.

Llywodraeth yr Alban (2019) Total Income from Farming Estimates for Scotland 2016-18.

Uned Ymchwil i Economi Cymru (2010), Input Output tables for Wales 2007, Prifysgol Caerdydd.

Uned Ymchwil i Economi Cymru (2011) The Economic Impact of Walking and Hill Walking in Wales.

Llywodraeth Cymru. Arolwg o Fusnesau Ffermio (blynyddoedd amrywiol).

Llywodraeth Cymru (2012) Arolwg Ymwelwyr Cymru 2011.

Llywodraeth Cymru (2018), Arolwg Amaethyddol Cymru, 2016.

Llywodraeth Cymru (2018), Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016.

Llywodraeth Cymru (2018) Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016.

Llywodraeth Cymru (2018) Allbwn ac incwm amaethyddol cyfun, 2017.

Llywodraeth Cymru (2018) Workplace employment by Welsh local areas and broad industry, 2017.

Llywodraeth Cymru (2019), Gwerthusiad Economaidd o Sector Bwyd a Diod Cymru – Diweddariad, 2018.

Pennod 2

Llywodraeth Cymru, Defra, Llywodraeth yr Alban, Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon (2019) Air Quality: Consultation on draft National Air Pollution Control Programme.

Hayhow D B, Burns F, Eaton M A, Bacon L, Al-Fulaij N, Bladwell S, Brookman E, Byrne J, Cheesman C, Davies D, De Massimi S, Elding C, Hobson R, Jones J, Lucas SR, Lynch S, Morgan L, Rowe A, Sharp R, Smith RG, Stevenson K, Stretton TA, Taylor R a Gregory RD (2016) Sefyllfa Natur Cymru 2016. The State of Nature partnership.

Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR): Assessment of the Sustainable Management of Natural Resources. Technical Report.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) UK Natural Capital: ecosystem accounts for freshwater, farmland and woodland.

Vanbergen AJ, Heard MS, Breeze T, Potts, SG, a Hanley N (2014), Status and value of pollinators and pollinator services, report to Defra.

Llywodraeth Cymru (2015) Cynllun Adfer Natur.

Llywodraeth Cymru (2015) Strategaeth Ddŵr Cymru .

Llywodraeth Cymru (2018) Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016.

Llywodraeth Cymru (2019) Ffyniant i Bawb. Cymru Carbon Isel .

Pennod 3

Defra (2005) Agricultural Management of Common Land in England & Wales.

Defra (2018) Agriculture in the United Kingdom, 2017.

Defra (2014) Farm Household Income and Household Composition: Results from the Farm Business Survey, England.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2008) Other gainful activities: pluriactivity and farm diversification in EU-27.

Langton, S. (2012), Grazing Livestock Farms: Economic Performance and Links With Environmental Performance. Pub: Defra Agricultural Change and Environment Observatory Research Report No. 30.

Royal Institution of Chartered Surveyors Rural Land Market Survey H1 2018: Rent Prices in 2017-18 Taliadau Gwledig Cymru.

The Anderson Centre for AHDB (2018). The Characteristics of High Performing Farms in the UK.

Llywodraeth Cymru. Arolwg o Fusnesau Fferm (blynyddoedd amrywiol).

Llywodraeth Cymru (2018) Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016.

Pennod 4

Defra (2018) Agriculture in the United Kingdom, 2017.

Evidence and Scenarios Roundtable sub-working group (2018). Summary of EU Exit Scenario Planning Workshops.

Senedd Ewrop (2015) Implementation of the First Pillar of the CAP 2014-2020 in the EU Member States.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2016) Redistributive Payment.

Llywodraeth Cymru. Arolwg o Fusnesau Fferm (blynyddoedd amrywiol).

Taliadau Gwledig Cymru.

Llywodraeth Cymru. Arolwg Amaethyddol Cymru (blynyddoedd amrywiol).

Llywodraeth Cymru (2018) Brexit a'n Tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru.

Pennod 5

Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB), UK Cattle Yearbook, various years.

Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB), Dairy Statistics, An Insider's Guide, various years.

Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB), Sheep Yearbook, various years.

Agricultural and Horticultural Development Board (2017) Meat and dairy – our prospects in the global marketplace.

Agricultural and Horticultural Development Board (2018) Exploring the implications of Brexit for agriculture and horticulture in Wales.

Agricultural and Horticultural Development Board (2019) Brexit prospects for UK Dairy Trade.

Hybu Cig Cymru (2018) Llyfr Bach o Ffeithiau am Gig. Casgliad o Ystadegau'r Diwydiant Cig Coch a Da Byw yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru (2018), Ffeithiau a Ffigurau Ffermio, Cymru 2018.